# Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 442 | Mehefin 2023 | Pris £1

## CYFLWYNO SIEC I AMBIWLANS AWYR CYMRU



Joseff Edwards a'i deulu yn cyflwyno siec o £18,000
i Ambiwlans Awyr Cymru

Aeth Gemma Harries o Nantgaredig i deimlo'n sâl yn sydyn ar fore dydd Llun, Ionawr 16eg eleni ar ôl teimlo'n fyr o anadl a phrofi poenau yn y frest. Yn fuan wedyn, cafodd Gemma ataliad ar y galon a derbyniodd CPR ar unwaith.

Mynychodd yr Ambiwlans Awyr yn syth i gynorthwyo Gemma, ond er gwaethaf ymdrechion gorau'r criw, bu hithe farw yng nghartref ei phartner Joseff yn Hendy-gwyn.

Wrth siarad am Gemma, dywedodd Joseff: "Gemma oedd cariad fy mywyd, hi oedd y math o berson fyddai'n gwneud unrhyw beth i chi. Y tro cyntaf y byddech chi'n cwrdd â hi byddai fel chwa o awyr iach, ac fel petaech chi'n ei hadnabod ers blynyddoedd. Roedd hi'n berson arbennig iawn gydag enaid hyfryd."

Dathlodd Joseff ei ben-blwydd yn 30 oed ym mis Ebrill eleni, a dyma oedd ei ben-blwydd cyntaf, heb Gemma wrth ei ochor, ers iddi farw.

Sefydlodd Joseff dudalen codi arian ar facebook, yn lle derbyn anrhegion ar ei benblwydd, er mwyn codi arian ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru, yn y gobaith gallai newid bywyd rhywun arall er gwell. Penderfynodd gefnogi Ambiwlans Awyr Cymru ar gyfer ei ben-blwydd gan ei

*parhad ar dudalen 11*

## Llywydd Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion



Eurfyl Lewis, Calfaria Login, Llywydd y Gymanfa am y flwyddyn 2023/24. Fe fydd y Cyfarfodydd Blynyddol yng Nhalfaria Login, ym mis Mai 2024 a'r Cyfarfodydd hanner-blynyddol ym Mhenyparc mis Tachwedd 2023.
Llongyfarchiadau a phob bendith iddo yn ystod y flwyddyn.

## CERFLUN TWM CARNABWTH

Cynhelir noson i lawnsio apel codi arian ar gyfer cael cerflun i Twm Carnabwth yng Nghaffi Beca, Efailwen ar nos Lun, Gorffennaf 17eg am 7 o'r gloch

Apeliwn ar fechgyn cyhyrog y fro i fod yn bresennol er mwyn cynnal ail gread o ddymchwel yr iet gan Ferched Beca

Cyflwynir eitemau cerddorol a llafar gan ddisgyblion ysgolion lleol a gan aelodau'r gymuned

*Croeso cynnes i bawb*

Am fwy o fanylion cysylltwch â Tudur Lewis ar 07971 365083

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **i'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Nansi Evans 01994 448392 |
| **Cornel Garddio:** | John Davies 01994 240059 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Rwy'n amal yn clywed y cwestiwn :
"Be ma'r plant yna yn g'neud ETO â'u penne yn eu ffôns ? "
A dwi weithiau wedi clywed ateb sy'n codi gwên:
"Wel gan bo' chi wedi gofyn, dwi yn y ffôn yn checio pryd ma ymarfer côr!! "

Mae'n hawdd iawn meddwl ar yr olwg gyntaf mai segurdod, neu ddiogi hyd yn oed yw syllu i mewn i ffôn yn ddi-baid. A gallaf fentro dyfalu fod ffonau clyfar aelodau Aelwyd Hafodwenog wedi bod yn grasboeth wythnos Eisteddfod yr Urdd eleni, oherwydd er mwyn llwyddo mewn cynifer o gystadlaethau – mae angen cydlynu a chyfathrebu effeithiol, gwirio cystadlaethau ac amserlenni, weithau mae angen dod o hyd i gystadleuwyr sydd wedi 'crwydro' o'r pafiliwn, ac wrth gwrs mae'r ffôn yn hanfodol er mwyn cadw golwg ar ganlyniadau.

Heb os, roedd canlyniadau Aelwyd Hafodwenog eleni yn eithriadol. Ry'n ni'n ffodus iawn yn yr ardal hon fod cynifer o'n pobl ifanc yn ymdrechu hyd eithaf eu gallu, yn rhoi 110% Ac wrth gwrs, nid wythos yn unig o ymdrech yw Eisteddfod yr Urdd – gydag ymarferion yn amal yn dechrau ym mis Ionawr, mae'n ymrwymiad sy'n para bron i hanner y flwyddyn. Mae eu talentau a'u hymdrechion yn ymestyn y tu hwnt i lwyfannau'r Urdd hefyd a'u hegni a'u brwdfrydedd yn ddibendraw.

Felly y tro nesaf y clywn ni rywun yn cyfeirio at bobol ifanc â'u "penne yn eu ffôns" mae'n werth i ni i gyd i atgoffa ein hunain o'u cyfraniad i'n cymunedau, a'u gallu i gyflawni gymaint o amrywiol dasgau, ac yn amal iawn, mae'r ffônau hynny yn allweddol er mwyn cael trefn a rheolaeth ar y cyfan.

Wrth gwrs, mae pawb yn mwynhau llwyddiant, ond ennill neu golli - yr hyn y dylid ei glodfori uwchlaw hynny ydy ymdrechion diflino ein pobol ifanc ni, a'u hawydd i godi safonau, a gosod y bar yn uchel.

Mae'n nhw hefyd yn sicrhau fod y Gymraeg yn iaith fyw a bywiog yn ein cymunedau – ac mae hynny mor eithriadol o bwysig.

Mae pob plentyn a pherson ifanc o'r ardal hon a fu'n cystadlu yn Llanymddyfri ddechrau'r mis wedi codi calonnau cynifer o bobol, yn rhieni, yn berthnasau a hyfforddwyr.

Llongyfarchiadau mawr i bawb !

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Y Parch. Euros Jones Evans*

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Cardi Bach gyrraedd ei ddarllenwyr, bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd eleni yn Llanymddyfri wedi dod i ben. Mawr fu ei llwyddiant a dwi'n sicr fod y doniau ifainc a gafodd lwyfan yno - fel meysydd cyfoethog dyffryn Tywi - yn dal i amlygu gwyrddlesni ffres ein diwylliant Cymraeg rhyfeddol.

Rai wythnosau cyn yr Eisteddfod, fe gafodd cerflun nodedig o ddur sgleiniog ei ddadorchuddio yng nghanol y dref i goffáu cyfraniad ein hemynydd mwyaf, William Williams, Pantycelyn. Y mae'r cerflun yn waith y crefftwr o Landysilio, Gideon Petersen. Llwyddodd i gyfleu cyfraniad emynyddol y Pêr Ganiedydd ar siâp troellog sy'n culhau wrth ymestyn tuag at i fyny. Y mae'r erwydd – sef y llinellau mewn nodiant cerddorol – yn ymddolennu o gwmpas y cyfan ac yn cynnwys dyfyniadau o rai o emynau mwyaf poblogaidd y bardd. Trawiadol iawn!

## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.com |
| (Newyddion Tabernacl) | Y Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |

Ar yr un pryd â'r digwyddiad hanesyddol hwn, digwyddwn ddarllen llyfryn gan Robert Nicholls, 'Hoff Emynau'r Cymry.' Yn y casgliad hwn ceir 64 o Gymry adnabyddus i sôn am eu hoff emynau. Y mae'n ddiddorol gweld sut y mae gwahanol emynau wedi dylanwadu arnynt.

Dw i'n siwr fod gan ddarllenwyr brwd y Cardi Bach eu hoff emynau. Mae gen i lu ohonynt ond yr un sydd wedi fy llorio'n llwyr yn ddiweddar ac wedi bod yn gysur eithriadol imi yn ystod fy nghystudd ingol y misoedd diwethaf hyn yw emyn gan y Pêr Ganiedydd ei hunan. Deuthum ar ei draws yn Llyfr Emynau y Methodistiaid (1927). Am ryw reswm ni welir yr emyn yn Caneuon Ffydd. Felly, dyfynnaf ddau bennill i egluro'n fyr fy hoffter ohono:

Nid oes ond f'Arglwydd mawr ei ddawn
a leinw f'enaid bach yn llawn;
ni allwn ddal dim mwy pe cawn;
    mae Ef yn ddigon mawr;
a digon, digon, digon yw
dy hyfryd bresenoldeb gwiw;
yn angau ceidw hyn fi'n fyw,
    a bodlon wyf yn awr.

Anfeidrol berffaith sanctaidd Fod,
gwna imi weld na chaed erio'd,
ac na cheir pleser dan y rhod,
    yn rhagor na'th fwynhau;
Wel dyma'r oriau gofiaf mwy,
a'r pleser gefais ynddynt hwy
ddymunaf bellach fyth tra fwyf
    yn unig i barhau.

Nid gormodaith dweud fy mod wedi cael fy syfrdanu gan ei weledigaeth lle mae'n clodfori ymbreswyliad dwyfol cyflawn Duw yn ei enaid ac oblygiadau tragwyddol y fath weledigaeth.

Y mae'r emyn cynhwysfawr hwn mor syml i'w ddeall; mor uniongyrchol ei fynegiant; eto, yn grefftus iawn yn ei adeiladwaith wrth raddol gyrraedd yr uchafbwynt mewn un llinell anfarwol. Yn fy marn dyma un o'r llinellau mwyaf yn ein hemynyddiaeth. Wedi dechrau trwy sôn mai dim ond Duw all lanw'r enaid bach yn llawn, y mae'r bardd yn mynd rhagddo i ddatgan lwyred yw'r digonolrwydd hwnnw trwy ailadrodd y gair digon deirgwaith,

    a digon, digon, digon yw
    y hyfryd bresenoldeb gwiw,

cyn cyrraedd y weledigaeth syfrdanol yn y llinell hon,

    yn angau ceidw hyn fi'n fyw.

Rhaid oedi, myfyrio a phwyso ar bob gair yn y llinell hon. Er enghraifft, mor rymus bwerus yw ffurf gryno'r ferf cadw sy'n ychwanegu at bendantrwydd ei gred y bydd enaid dyn fyw wrth farw. Y mae hyd yn oed ceisio amgyffred y canfyddiad a'r sicrwydd yn ddigon i'n hargyhoeddi. Yna mae'n cloi'r pennill gyda'r gosodiad hyfryd, 'a bodlon wyf yn awr.'

Yn yr ail bennill ni wna ond cyfarch yr 'Anfeidrol berffaith sanctaidd Fod,' gan ymhelaethu ar lawenydd ac ecstasi'r profiad. Ei ddymuniad mawr yw bydd yr ymdeimlad a phleser a mwynhad y nef funudau hynny yn parhau. Ni ellir gwell llinellau i gadarnhau y mwyniant bythol y sonia Dafydd amdano ar ddiwedd Salm 16: 'Dangosi i mi lwybr bywyd: yn dy bresenoldeb di y mae digonedd o lawenydd, ac yn dy ddeheulaw fwyniant bythol.' Gwyn fyd y sawl sydd wedi darganfod ac uniaethu ei hun â'r unrhyw brofiadau a'r sicrwydd a fynegir mor orfoleddus gan y salmydd a'r emynydd.

---

# Corlan

Cafwyd noson hwylus yn ddiweddar yn Nhafarn Sinc, wrth i Corlan a dau gôr arall ddiddanu'r gynulleidfa. Perfformiodd Corlan amrywiaeth o ganeuon amrywiol, yn ogystal â chôr bois Clwb Rygbi Crymych a chôr y Dysgwyr, Sir Benfro. Diolch am y gwahoddiad o gael bod yn rhan o noson arbennig.

# *I'ch diddori* gan John Arfon

Er na chefais gyfle i fynychu Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri yn ddiweddar, cefais flas mawr a mwynhad wrth ddiyn y Brifwyl ar y teledu. Diolch i S4C ac i Radio Cymru am roi cymaint o'r gweithgareddau inni gael eu gweld a'u clywed a hoffwn longyfarch pawb a wnaeth yr Eisteddfod yn un mor lwyddiannus. Heb os, bu'r tywydd braf yn help i ddenu llawer yno ac rwy'n gobeithio fod pawb wedi cael eu plesio a mwynhau' holl dalentau oedd ar gael yno, Hoffwn ddiolch yn arbennig iawn i'r holl Ysgolion Cymraeg ledled Cymru ac hefyd am yr ymdrech, a'r holl waith ac amser wnaed gan yr holl athrawon a fu'n paratoi a hyfforddi yr ieuenctid. Hefyd diolch i holl arweinwyr Adrannau'r Urdd am eu gwaith diflino hwythau. Rwy'n gobeithio y bydd y profiad hyn o gymeryd rhan a chofio'r wefr o gystadlu yn ysgogi ein hieuenctid ac yn sicrhau eu hymroddiad i gadw'r Gymraeg yn fyw.

Yn anffodus nid oeddwn yn teimlo fod yr Urdd wedi gwneud cyfiawnder ag enillwyr prif seremoniau'r Brifwyl. Er fy mod hwyrach yn hen ffasiwn a thraddodiadol, teimlais y dylai'r enillwyr hyn gael eu hurddo yn fwy addas ac urddasol na chael anifeiliaid o'i cwmpas i'w tywys I'r llwyfan. Er fod rhaid inni roi clod i'r Urdd am geisio moderneiddio y seremoniau, credaf yn bersonol nad oedd y newid yn llwyddiant o gwbl. Tybed beth yw eich barn chwi?

**Manion**

Os bu yna gi Gweinidog erioed, Padi oedd hwnnw. Mi ddoi mlaen hefo fi i'r sêt fawr a gorwedd dan y pulpud gan godi ar ei eistedd pan fydde ni'n canu a gorwedd yn ei ôl wedyn. A phan glywa fo fi'n cyhoeddi'r fendith ar y diwedd, mi ai ymlaen at y drws ac ysgwyd ei gynffon ar bawb wrth iddyn nhw fynd allan 'run fath a gweinidog mewn capel Saesneg.

*(Y Parchedig Idwal Jones)*

Yn fuan wedi cyhoeddi "Yr Haf a Cherddi Eraill" gofynnodd cyfaill i R Williams Parry a oedd wedi sylwi fod ei soned i 'Williams Pant y Celyn' wedi ei hargraffu wyneb-yn-wyneb â'i soned i'r " Cantin Gwlyb".
"Tewch a sôn", meddai. 'Roedd Hwn a Hwn yn dweud y diwrnod o'r blaen : "Wyddost ti be Bob?" meddai, "fedrai byth agor dy lyfr di nad y peth cynta y byddaf yn ei weld bob tro di gweld yr hen Bant yn mynd am ei beint ".

Merch fach: "~~Wnewch chi agor y lli~~diart imi, os gwelwch yn dda?" Gŵr bonheddig yn agor y giât. Yna, gofynnodd I'r eneth: "Pam na fuasech chi wedi ei hagor hi eich hun? "Merch fach: "Am fod y paent heb orffen sychu eto. Diolch yn fawr".

Rhaid i iaith barhau i fod yn iaith lenyddol os yw am oroesi a byw, os yn wahanol bydd lledeiniad addysg yn ei difrodi.

**Cydymdeimlad**

Sioc o'r mwyaf a thristwch mawr i'r holl ardal oedd clywed am farwolaeth Mary Pearce-Jones, Y Mans, Llanbedr Efelffre, yn frawychus o sydyn yn ddiweddar. Roedd yn ferch i Mr a Mrs Monty Davies, Tafarnsbeit.

Yn ei gyrfa dysgu am flynyddoedd yn yr Ysgol Ramadeg Hendygwyn, cafodd lwyddiant arbennig yn dysgu Addysg Gorfforol a Dawns Greadigol. Bu'n feirniad yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd sawl tro. Roedd hefyd yn gyfrifol am greu choreograffi i holl sioeau Nadolig yr Ysgol ac yr oeddynt i gyd yn llwyddiant mawr. Daliodd ei chysylltiad â'r ysgol, erbyn hyn Dyffryn Taf, fel un o'r llywodraethwyr hyd yn ddiweddar.

Roedd yn athrawers penigamp, ac yn rhoi o'i gorau er lles pawb. Yn boblogaidd iawn gyda'r holl ddisgyblion a oedd yn dwli arni, ac yn aelod blaenllaw o'r staff. Roedd pob amser yn siriol ac yn llawn hiwmor a hwyl ac yn barod i helpu unrhyw un mewn angen, beth bynnag yr achlysur.
Gwelir ei cholli drwy'r ardal a'r gymdeithas, ynghyd â'i chyd athrawon a'i holl ffrindiau. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w merch Rhiannon ac i'w chwaer Merle a'i theulu.

"Coffa da amdani, roedd yn un o'r gorau".

---

**Blwch Llythyron**



A ydych wedi sylwi ar y blwch casglu llythyron newydd sydd wedi ei godi yn lle'r hen un tu fas i'r Grosvenor, Heol Sant Ioan, Hendygwyn. Dyma lun ohono. Rwyf yn siomedig iawn eu bod wedi rhoi hen flwch Elisabeth 2il yn lle rhoi un newydd Siarl 3ydd. Paham tybed, a oedd Hendygwyn ddim digon da i'r un newydd? Un peth arall mae'n rhaid imi gwyno amdano hefyd, nid yw'n rhoi'r amseroedd postio i ni, felly, efallai nad yw ond cael ei gasglu yn fuan y bore.

---

**Cofiwch Dryweryn**

Hyfryd iawn hefyd oedd gweld yr arwyddlun welir yn y llun.




Cafodd "Cofiwch Dryweryn" ei baentio yn ardderchog ar ochr wal Gwesty a Thafarn y Taf, Hendygwyn, a mae mewn man iawn i dynnu sylw ato. Gobeithio yn fawr y bydd ymwelwyr a Saeson yr ardal yn holi ei ystyr a'i hanes a phaham ein bod ni'r Cymry eisiau dwyn i gôf y geiriau bythgofiadwy. Diolch yn arbennig i berchennog y Taf, Raymond Jones am fod mor gefnogol i un o'i staff gael paentio'r slogan hwn mor daclus ar ei eiddo.

**Dyma atebion posau mis Ebrill**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | X | X | O | O | X |
| X | O | O | X | X | O |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | O | X | O | X |
| O | X | O | X | X | O |
| X | O | X | O | X | 0 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 9 | 6 | 8 | 4 | 1 | 5 | 7 | 3 |
| 4 | 3 | 8 | 5 | 9 | 7 | 2 | 1 | 6 |
| 1 | 5 | 7 | 6 | 2 | 3 | 5 | 4 | 8 |
| 5 | 1 | 9 | 3 | 6 | 4 | 7 | 8 | 2 |
| 7 | 8 | 3 | 2 | 5 | 9 | 4 | 6 | 1 |
| 6 | 2 | 4 | 7 | 1 | 8 | 3 | 5 | 9 |
| 3 | 7 | 5 | 9 | 8 | 6 | 1 | 2 | 4 |
| 9 | 6 | 1 | 4 | 7 | 2 | 8 | 3 | 5 |
| 8 | 4 | 2 | 1 | 3 | 5 | 6 | 9 | 7 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | | | | X | |
| | O | | 0 | | |
| | | X | | X | |
| | | O | | | |
| X | | | | | X |
| | | O | | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | | | | 4 | | | | 6 |
| 6 | 9 | | | 5 | 7 | | 4 | |
| | | | | 6 | | 3 | | |
| | | | 8 | | 1 | 7 | 3 | |
| 2 | | | | | 9 | | | |
| | | 9 | 4 | | | 8 | 6 | |
| 9 | | | | | | | | |
| | 4 | 5 | | | | | | 1 |
| | | 3 | | | | 4 | 9 | |

**Dyma atebion pôs A**
**Celloedd Mêl y Gwenyn.**

1.Cynnar, 2. Gwynfa, 3. Agored, 4. Cilfan, 5. Cywion.

**Dyma atebion pôs B**

1. Grymus, 2. Brechdannau, 3. Cyfraith, 4. Areithio, 5. Gwirioni, 6. Llawenydd, 7. Sigledig, 8. Trugarhau, 9.Porthmyn, 10. Meddyg, 11. Llanastr.

*Wrth ddarllen i lawr y blychau llwyd dylech gael enw y nofelydd* **Marion Eames** *ac wedi ail drefnu y llythrennau yn y blychau serennog cewch enw ei nofel* **Ystafell Ddirgel.**

**Pôs A**

Mae un gair neu enw yn cysylltu y triawdau a roddir – er enghraifft, pe byddai gennych Aber, Arch, Og - y gair fyddai'n cysylltu a hwy yw Mad, er mwyn creu y geiriau Abermad, Madarch, a Madog. Gwelwch y gall y gair cysylltiedig fyned o flaen neu ar ôl y geiriau a roddir. Yna, cymerwch lythyren cyntaf pob ateb cyswllt ac ail-drefnwch hwy i gael dywediad amserol. Os medrwch, rhowch hefyd yr holl atebion cyswllt yn ogystal.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Watson | 2. Jones | 3. Beckham | 4. Kinnock | 5. Shân |
| Hanks | Williams | Y Frenhines | Jenkins | Williams |
| Jones | Tywysog | Gorsaf | Armstrong | Hooson |
| ( …….) | (……..) | (……..) | (…….) | (…….) |
| 6. Dafydd | 7. Williams | 8. Fflur | 9. Coch | 10. John |
| Capel | Michael | Mynach | Powys | Edmonds |
| Roberts | Mabon | Ebol | Windsor | Gallagher |
| (…….) | (……..) | (…….) | (…….) | (……..) |

→

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |

**Wedi ail- drefnu'r llythrennau, y Cymro enwog yw:**

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |

**Pôs B**

Mae'n rhaid i bob llinell, colofn a'r blwch 4x3 gynnwys yr holl rifau o 1 i 12.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 3 | | | 7 | 11 | | 10 | | | | |
| | 5 | 7 | | | | | | | 4 | | |
| | 8 | | | | | 1 | | | 2 | | 10 |
| | 2 | | | | | | 3 | 6 | | | 5 |
| 1 | | | 7 | 2 | | | 8 | 10 | 11 | | 9 |
| | 12 | | 3 | 6 | 9 | 10 | | | | 4 | |
| | 9 | | | | 2 | 8 | 11 | 1 | | 12 | |
| 11 | | 2 | 12 | 1 | | | 6 | 3 | | | 8 |
| 3 | | | 4 | 5 | | | | | | 2 | |
| 12 | | 1 | | | 5 | | | | | 10 | |
| | | 4 | | | | | | | 3 | 11 | |
| | | | | 12 | | 2 | 1 | | | 8 | 6 |

## Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Hyderaf eich bod hefyd wedi mwynhau'r tywydd braf yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Diolch i'r canlynol am ymaelodi ers y rhifyn diwethaf:-

Olive Davies, 17 Lôn Hywel, Hen Dŷ Gwyn
Eufryn a Marion Davies, Penybont, Llanfallteg
Pam Collis, 8 Swallow Rise, Knaphill, Woking
Diane Brown, Fern Bank, Pwll-Trap
Diane Brown, Fern Bank, Pwll-Trap
Myfanwy Davies, 2 Rhoswyn, Efailwen
Angharad Booth-Taylor, Golwg y Grug, Glandy Cross
Margaret Davies, Glas y Dorlan, Llanglydwen
Eleri Jones, Glenview, Llanglydwen.
Eirianwen Harries Bobcat, Upper Coxhill Farm, Arberth
Eirian a Hilary Edwards, 23 Maes y Frenni, Crymych
Jessica a Zac Edwards, 23 Maes y Frenni, Crymych


Os nad ydych eisoes wedi ymaelodi â'r Clwb 200, beth am wneud e'n fuan? Mae cyfle i ennill yn fisol, a chefnogi'r Cardi Bach ar yr un pryd. Cysylltwch â fi!

Llongyfarchiadau i'r canlynol am fod yn lwcus ym mis Mai:-

£20 - 275 - Morgan Robertshaw, Princes Risborough.
£10 - 539 - John a Nan Thomas, Henllan, Llandysul.

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,

*Rhian*



## 'Cristnogaeth a Fi'

Anerchiad gan Ifan Gruffydd (Tregaron)

ar nos Lun, Gorffennaf 31ain.

Capel y Tabernacl, Hendy-gwyn am 7.00 yr hwyr

Pris mynediad - £3 yn cynnwys paned o de

Croeso mawr i bawb.

(Trefnir fel rhan o Wythnos Hendy-gwyn 2023)

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300



IFAN DAVIES
Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469



W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma rywbeth ar gyfer mis Gorffennaf - Y Negyddol. NA - NAD

**Y Cymal Perthynol (a/y) – y negyddol**

Y ferch a holais. Y ferch y gofynnais iddi.
Y ferch na holais. Y ferch na ofynnais iddi.

Y merched a holodd.
Y merched na holon nhw (holasant)

Y plentyn a oedd yn dost
Y plant nad oedden nhw (oeddent) yn dost.

Pan fydd y goddrych yn lluosog mewn brawddeg negyddol, rhaid i'r ferf sy'n dilyn na/nad hefyd fod yn lluosog.

**Unwch y brawddegau i wneud un frawddeg yn defnyddio na/nad.**

Dych chi'n adnabod y chwiorydd?
Chanon nhw ddim yn dda o gwbl yn y gystadleuaeth.

Ble mae'r bobl?
Fyddan nhw ddim yn y dosbarth yfory.

Dwi'n chwilio am yr allweddi.
Doedden nhw ddim yn eu priod le

Dw i'n chwilio am ffrog newydd.
Fydd neb aralll yn y parti yn gwisgo'r ffrog.

Peidiwch a bwyta'r bwyd. Dyw e ddim yn barod eto.

Dw i'n mynd i ymweld a'r plant.
Dyn nhw dim wedi bod yn yr ysgol yr wythnos yma.

Dwi ddim yn deall siopau.
Dyn nhw ddim ar agor am bedair awr ar hugain.

Pwy yw'r person enwog. Thalodd e ddim o'r bil.

Dych chi'n gallu meddwl am bobl.
Fasai'r bobl hyn ddim yn fodlon helpu.

Dw i'n adnabod un neu ddau o bobl. Ddaw'r bobl hyn ddim i'r parti.

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## Cangen Hendygwyn

Aeth Margarette Hughes ac Ann James i'r Noson Radi Thomas yn Neuadd Nantgaredig. Er mai prin oedd y cystadleuwyr, roedd y safon yn uchel. Pob lwc i'r enillwyr yn Sioe Llanelwedd. Cawsant groeso mawr gan Ferched y Wawr Llanddarog a disied o de a chacennau blasus iawn!

Mynychodd Jean Parri Roberts a Margarette Hughes yr Ŵyl Haf ym Machynlleth ar ran y gangen lle cyhoeddwyd taw Margarette yw Llywydd Anrhydeddus newydd Merched y Wawr.

Ar Fai 23ain. aethon ni ar ein trip blynyddol. Roedd y tywydd yn garedig iawn i ni ac ar ôl ymgynnull ar bwys Canolfan Hywel Dda, bant a ni mewn ceir i Aberglasney lle treiliom brynhawn bendigedig ymysg y blodau a'r llwyni. Oddi yno aethom nôl i Picton House, Llanddowror, lle cafodd yr ugain ohonom swper wrth ein bodd.



Aelodau'r gangen yn Aberglasney

## Cangen San Clêr

Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn Yr Hen Ysgol ar Fai 16eg gan Eileen, y llywydd.
Roedd rhai o'r aelodau wedi mynychu Cinio'r Llywydd a mwynhau yn fawr.
Llongyfarchwyd Lilwen ar ei threfniant blodau yng Nghystadleuaeth Radi Thomas a dymunwyd yn dda iddi ar gyfer y Sioe Fawr. Ni fydd pabell flodau eleni ond lleolir y gystadleuaeth mewn man arall.

Croesawodd Eileen y siaradwraig wadd, sef Margaret Thomas o Langennech. Roedd wedi ffermio Tŷ'r Eglwys gyda'i ddiweddar ŵr cyn ymddeol i fyngalo Golwg yr Aber sydd a golygfa wych o aber y Llwchwr. Mae wedi bod yn drysorydd Cangen Bro Cennech ers blynyddoedd. Mae Margaret yn adnabyddus am ei gwaith llaw, bu'n fuddugol am y croesbwyth yn Sioe Fawr 2017 yng Nghystadleuaeth Radi Thomas. Daeth â llawer o'i gwaith i ddangos gan egluro y rheswm tu ôl ei dewis o lun a sut y mae'n mynd ati i greu'r gwaith. Pleser oedd gwrando arni yn cyflwyno yn ei ffordd gartrefol.

Wedi dod yn gwmni i Margaret oedd Jayne Hughes, hithau wedi ennill gwobrau yn y Sioe Fawr a'r Ffair Aeaf ac yn gyn-ysgrifennydd Rhanbarth, hi yw cynrychiolydd y Rhanbarth ar Is-bwyllgor Iaith a Gofal.

Diolchwyd i Margaret gan Beti-Wyn a ysgrifenodd am y gwaith llaw i'r Wawr rai blynyddoedd nôl. Mwynhawyd lluniaeth blasus wedi ei baratoi gan Sue. Rhoddwyd y wobr raffl gan Rhian White ac fe'i henillwyd gan Lilwen.

**Eisteddfod yr Urdd**
Bu Lilwen yn brysur yn gwneud trefniannau blodau hyfryd gogyfer â'r byrddau yn stondin Merched y Wawr ar y maes. Seiliodd y trefniannau ar feddyginiaethau Meddygon Myddfai. Bu Eileen, Iona a Beti-Wyn yn helpu ar y stondin a chael amser difyr yn cyfarfod â phawb.

## Cangen Bro Alma

Fel sawl cangen arall, mae Merched y Wawr Bro Alma yn cael hoe fach nawr dros yr Haf. Ond fe ddaw mis Medi chwap a byddwn ni nôl gyda'n gilydd yn cwrdd unwaith eto ar y trydydd nos Fercher o'r mis yng Nghanolfan yr Alma.

Bydd yna groeso twymgalon adeg hynny i'n haelodau selog a hefyd croeso mawr i unrhyw aelodau newydd fyddai'n hoffi ymuno â ni!
Rydym yn gangen gymdeithasol a chroesawgar sydd ag amserlen amrywiol – rhywbeth at ddant pawb.

| Cyfraniadau - *Diolch yn fawr* | |
|---|---|
| Teulu Maesyrhaf, Blaenwaun | £20 |
| Mary Llewellyn, Garth, Login | £10 |
| Llinos Thomas, Garreg Lwyd, Llangynin | £10 |
| Beryl Thomas, Maes-y-Bryn, Llandysilio | £10 |

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

# Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion eleni yng Nghylch Llandeilo a hynny er parch i'w gweinidog, y Parch Mary Davies a oedd yn dod i ddiwedd tymor ei Llywyddiaeth. Bu aelodau'r ofalaeth a chyfeillion eraill yn ymuno mewn oedfa Gymun yn Providence, Cwmdu ar fore Sul, 14eg o Fai ac yna ddeuddydd yn ddiweddarach i Ebeneser, Llandeilo y daeth aelodau o eglwysi'r Gymanfa ynghyd ar gyfer y Cyfarfodydd Blynyddol. Gyda'r haul yn tywynnu a golygfeydd o ddyffryn Tywi ar eu gorau cafwyd diwrnod llawn a bendithiol gyda'n gilydd.

Yn dilyn derbyn croeso'r chwiorydd a lluniaeth ysgafn daeth yn amser i drafod materion y Gymanfa yn y gynhadledd a oedd o dan lywyddiaeth y Parch Mary Davies. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau a chofiwyd am rai oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd anhwylder. Priodol hefyd oedd cofio am y rhai oedd wedi ein gadael yn ystod y flwyddyn ac offrymwyd gweddi ar eu rhan gan y Parch Heini Jones gan gyfeirio'n arbennig at golled fawr o fewn y Gymanfa ym marwolaeth y Parch Wynn Vittle, un oedd yn frwd dros y gwaith ac yn fawr ei gyfraniad ar hyd y blynyddoedd - coffa da amdano.

Derbyniwyd nifer o wahanol adroddiadau yn cynnwys Cartref Glyn Nest, a'r ddau goleg yng Nghaerdydd a Bangor a hefyd cyfarchion Mudiad y Chwiorydd a gan Lywydd yr Undeb y Parch D Densil Morgan. Pleser hefyd oedd clywed dymuniad Natalie Morgan, Aberteifi sydd a'i bryd ar fynd i'r weinidogaeth a hefyd derbyn y Parch Eseias Grandis yn weinidog llawn o fewn y Gymanfa.

Wedi gorffen ar y trafod a derbyn yr adroddiadau roedd yn amser ar gyfer yr oedfa bregeth. Y Parch Judith Morris, Ysgrifennydd Undeb Bedyddwyr Cymru oedd yng ngofal y rhannau arweiniol a gwahoddwyd y Parch Irfon C Roberts, Aberteifi i bregethu a chafwyd pregeth amserol a chofiadwy iawn ganddo yn ôl ei arfer. Cafwyd canu gydag arddeliad yn ystod yr oedfaon a diolch am wasanaeth Mrs Siân Evans a Mr Huw Thomas wrth yr organ.


Braf oedd medru cymdeithasu â'n gilydd yn y festri yn ystod y dydd a chwrdd â ffrindiau hen a newydd - cafwyd darpariaeth blasus wrth y byrddau a chyfle i sgwrsio'n hamddenol rhwng y cyfarfodydd.

Oedfa genhadol oedd yn y prynhawn o dan ofal y Senana. Trosglwyddodd y Parch Sian Elin Thomas, Y Graig y llywyddiaeth i Natalie Morgan, Bethania, Aberteifi a chymerwyd rhan yn yr oedfa gan y chwiorydd Rosemary Morgan, Ann Willams, Ann Bowen Morgan ac Einir Jones. Gwahoddwyd Tabea Dilling, sy'n gweithio gyda'r BMS i siarad a chafwyd enghreifftiau ganddi o waith cenhadol sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Daeth y cyfarfodydd i ben gydag oedfa'r Llywydd i gloi gweithgareddau'r dydd. Bu'r Parch Mary Davies yn traddodi ei hanerchiad o'r Gadair a chymrwyd at y rhannau arweiniol gan Gwlithyn Jones, Amor, Llanfynydd a Dawn Richards, Providence, Cwmdu. Cyfoethogwyd yr oedfa drwy berfformiadau arbennig Ffion Haf o Lanfynydd o ddau emyn cyfarwydd sef 'Rho im yr hedd' a 'Dros Gymru'n gwlad'.

Yn ystod yr oedfa trosglwyddwyd y Llywyddiaeth i'r brawd Eurfyl Lewis, Calfaria, Login ar ran Gweithgor Gorllewin Myrddin. Yn dilyn arwyddo Beibl y Gymanfa, y Parch Rob Nicholls, sydd â chysylltiad teuluol â Chalfaria a Ramoth, Cwmfelin Mynach, a offrymodd weddi'r neilltuo. Derbyniodd Eurfyl y llywyddiaeth yn huawdl gan gyfeirio at gysylltiad ei dad, y diweddar Iwan Lewis a fu'n bregethwr cynorthwyol cydnabyddedig gan y Gymanfa am flynyddoedd lawer. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu hefyd gan mai yng Nghapel Penyparc fydd y Cyfarfod Hanner Blynyddol ym mis Tachwedd o gofio'r cysylltiad teuluol â'r eglwys honno.

Cafwyd ychwanegiad hyfryd i'r oedfa wrth i Eurfyl rannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd gyda'r gynulleidfa gan gofio bod y dyddiad arbennig o fewn deuddydd i'r cyrddau a chyd-ddigwyddiad hefyd bod dau o aelodau'r ofalaeth yn Llandeilo yn bresennol ac yn perthyn i'r Parch Gwilym Davies, Cwm Rhymni, a drefnodd y neges gyntaf i'w hanfon ym 1922. Derbyniwyd croeso cynnes gan aelodau ardal Llandeilo ac edrychwn ymlaen at ymweld â bro Y Cardi Bach wrth gynnal y Cyrddau Blynyddol yng Nghalfaria, Login fis Mai flwyddyn nesaf.



Eurfyl Lewis gyda phawb fu'n cymerid rhan yn ystod y dydd

# *Aelwyd Hafodwenog*

Très bien Hafodwenog !

Gyda Phrifwyl yr Urdd ar garreg y drws eleni yn Sir Gaerfyrddin, cafodd Aelwyd Hafodwenog lwyddiant ysgubol gan gipio sawl gwobr gyntaf a chyrraedd y tri safle uchaf mewn nifer fawr o gystadlaethau. Mae talentau'r Aelwyd yn eang, ac fe serennodd yr aelodau mewn amrywiol gystadlaethau, o ddawnsio gwerin i glocsio, i ganu, llefaru a cherdd-dant. Mae'r canlyniadau i'w gweld oddi mewn i gloriau'r Cardi Bach. A braf oedd gweld llwyddiannau'r aelodau iau hefyd yn cystadlu yn enw Clocswyr Cowin a Chywion Cowin

Daeth hi'n amlwg rai misoedd yn ôl y byddai hon yn Brifwyl i'w chofio i'r Aelwyd gyda'r arweinydd a'r hyfforddwraig Sioned Page Jones yn derbyn medal John a Ceridwen Hughes Uwchaled mewn seremoni ar y maes yn Llanymddyfri, a hynny am ei chyfraniad amhrisiadwy i'r Aelwyd ac i ieuenctid y fro hon.

Roedd bobl ifanc yr Aelwyd yn bresennol yn y seremoni, i ddiolch i Sioned am ei gwaith diflino yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf.



Côr Merched

Ac ar ddiwedd y cystadlu, fe ddatgelwyd y gyfrinach fawr, y byddai aelodau Aelwyd Hafodwenog yn perfformio draw yn Ffrainc yn yr hydref, yng Nghwpan Rygbi'r Byd.

Mae'n anrhydedd gwbwl haeddiannol gan yr Urdd wedi'r fath lwyddiant, nid yn unig eleni ond dros y degawdau diwethaf.

Pob hwyl i'r aelodau yn Ffrainc. A merci beaucoup am roi gorllewin Sir Gâr ar y map ar y maes yn Llanymddyfri, a maes o law, ar feysydd rygbi Ffrainc. *Iola Wyn*



Gwenno Davies, Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod yn cyfarch Sioned Page Jones, enillydd Tlws John a Ceridwen Hughes, yn ystod y seremoni ar faes yr Eisteddfod.



**Côr llawn**



Cor Aelwyd Hafodwenog yn morio canu ar ddiwedd y seremoni

Ac ar ôl y seremoni honno, fe gamodd aelodau'r Aelwyd yn ôl i'r llwyfan ar gyfer pedwar diwrnod o gystadlu.
A phenllanw hynny oedd y prynhawn Sadwrn gydag Aelwyd Hafodwenog yn y tri uchaf ym mhob un o gystadlaethau'r corau. Am y tro cyntaf erioed yn hanes yr Aelwyd, cipiodd y Côr Merched y wobr gyntaf o dan arweiniad Dai Baker.

**Canlyniadau**

1af - Côr Merched SSA 14-25 oed
1af - Dawns Werin Bl.10 ac o dan 19 oed
1af - Dion Jones, Dawns Stepio Unigol i Fechgyn Blwyddyn 9 ac iau
2il - Dawns Werin dan 25 oed
2il - Côr Bach SATB 14-25 oed
2il - Parti Cerdd Dant 14-25 oed
2il - Erin Jones, Dawns Stepio Unigol i Ferched 14-25 oed
2il - Abel Rees, Dawns Stepio Unigol i Fechgyn 14-25 oed
3ydd - Côr Mawr SATB 14-25 oed
3ydd - Côr Meibion TTB 14-25 oed
3ydd - Gwenan Morris, Llefaru Unigol Bl.10 ac o dan 19 oed

## Adroddiad Dai Baker o Aelwyd Hafodwenog

Mae wythnos Eisteddfod yr Urdd yn wythnos bishi i aelodau'r Aelwyd bob blwyddyn, ond eleni gyda'r Eisteddfod yn ymweld â Sir Gâr am y tro gyntaf ers 2007, roedd hi'n wythnos hyd yn oed mwy bishi nag arfer! Roedd nifer fawr o'r aelodau ynghlwm â'r Oedfa a sioe Chwilio'r Chwedl ar y dydd Sul, cafwyd seremoni hyfryd iawn i anrhydeddu gwaith caled Sioned Page-Jones wrth iddi dderbyn Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled ar fore dydd Mercher cyn i 30 o unigolion a grwpiau gynrychioli'r Aelwyd yn amryw o gystadlaethau yn ystod yr wythnos.

Rydym bob blwyddyn yn browd iawn o ymroddiad a pherfformiadau'r Aelwyd gyfan, ond eleni yn fwy nag erioed. Ar y nos Sadwrn, wedi wythnos llawn o gystadlu (a chyn i'r aelodau hŷn bwrw'r bar!) cafwyd y newyddion anhygoel wrth Mari Lovgreen ar y llwyfan ganlyniadau, mai Aelwyd Hafodwenog sydd wedi ei ddewis i gynrychioli'r Urdd a Chymru allan yng Nghwpan Rygbi'r Byd ym mis Hydref! Braint enfawr i'r Aelwyd ac i'r ardal gyfan a diolch o waelod calon i'r Urdd am y cyfle.

Yn amlwg, ni fyddai dim o hyn yn bosib heb ymroddiad yr holl hyfforddwyr, cyfeilyddion a swyddogion yr Aelwyd ac mae diolch diffuant iawn yr aelodau yn mynd i bob ohonyn nhw. Hefyd, rydym am ddiolch i Eleri Rees (neu Eleri Maesybont i lawer!) am ei gwaith diflino wrth baratoi a chludo holl wisgoedd yr Aelwyd unwaith eto eleni ac am ei amynedd wrth wisgo'r holl aelodau yn barod am y llwyfan. Gwaith tu ôl y llenni sydd yn aml yn mynd "o dan y radar" ond heb ei gwaith, ni fyddai yr un o'r aelodau yn gael y cyfleoedd dawnsio sydd ar gael iddynt.



*parhad o dudalen 1*

bod yn gwneud gwaith anhygoel, ac mae'n nhw'n hanfodol i'n cymunedau! "Dyma'r peth lleiaf allen i wneud, ac mae angen i ni i gyd wneud yr hyn a allwn i'w cefnogi. Er mor anodd yw hyn, roeddwn eisiau gwneud rhywbeth da allan o sefyllfa erchyll."

Dywedodd Joseff: "Ni allaf gredu faint o gefnogaeth wnes i dderbyn mewn cyfnod mor fyr. Mae pobl wedi bod yn garedig ac yn hael iawn ac rwy'n hynod o diolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu, mae'n wir yn golygu'r byd i mi".

Dywedodd Laura Slate, Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Ambiwlans Awyr Cymru: "Fel elusen, roeddwn yn drist iawn o glywed am farwolaeth Gemma. Mae'n amlwg o'r negeseuon ar-lein, ac o'i theulu a'i ffrindiau bod Gemma yn ddynes wirioneddol ysbrydoledig, gyda chymaint i'w gynnig i'r byd.

"Ni allwn ddechrau dychmygu'r boen a deimlir gan anwyliaid Gemma ac fe'n hysbrydolir yn wirioneddol gan haelioni Joseff. Yn ystod cyfnod o dristwch annirnadwy, mae'n canolbwyntio ar helpu eraill, a chreu etifeddiaeth barhaol yn enw Gemma. Diolch yn fawr i Joseff am ein cefnogi ni, ac i bawb sydd wedi cyfrannu. Mae codi £18,000 mewn mater o wythnosau yn hollol syfrdanol.

Mae papur bro Y Cardi Bach yn cydymdeimlo gyda Joseff ar ei golled trist ond hefyd yn ei longyfarch ar lwyddo i godi swm anhygoel o arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

## Anna Phillips yw Enillydd Ysgoloriaeth Nansi Richards 2023



Anna Phillips
o flaen Neuadd Gregynog

Roedd tair telynores o fri yn cystadlu am yr Ysgoloriaeth eleni a merch o Glunderwen (Sir Benfro) enillodd y wobr o £1,500.

Mae Anna yn bwriadu defnyddio'r arian i helpu tuag at gostau astudiaethau yn ei blwyddyn olaf yn yr Academi Gerddoriaeth Frenhinol yn Llundain.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed
Ffôn: 01994 240857

# BLAENWAUN

**Moriah**

Diolch i Arwel Evans a'r Parchedig Gareth Ioan am eu gwasanaeth. Ar Sul, Mehefin 4ydd claddwyd llwch ein haelod hynaf Glyndwr Davies, Llys Meini, Llangynin, ym medd y teulu ym mynwent Moriah. Yn dilyn cafwyd Cymun yng ngofal ein gweinidog y Parchedig Gareth Ioan a chwmni teulu Glyndwr. Roedd ffydd Glyndwr yn gryf ac ni phylodd ei gonsyrn a'i ddiddordeb yn yr eglwys. Hyfryd oedd treulio amser gyda'i deulu ar ôl y Cymun dros baned o de.

**Trefn yr oedfaon:**
Gorffennaf
2il: 1.30 - Parchedig Gareth Ioan.
30ain: Oedfa Bregethu 2 o'r gloch - Tudur Dylan.

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau i Manon Llewellyn am ennill cystadleuaeth trefnu blodau yn Rali CFfI Sir Benfro. Pob lwc iddi wrth fynd ymlaen i gystadlu yn Sioe Malvern ym mis Medi. Mae Manon yn aelod o glwb Hermon.

# Pwll Trap

Dymunwn yn dda i Alys Williams a Tom Bryant ar eu priodas yn ddiweddar. Mae'n nhw wedi ymgartrefu yn Cefn Maes.

....hefyd, i Dafydd a Kelly Evans ar eu priodas yng Nghapel Bethlehem Newydd ar Fai 27ain. Gweinyddwyd y briodas gan y Parch Robin Samuel a Hefina Jones oedd wrth yr organ. Cafwyd datganiad hyfryd ar y piano gan Rhys Davies (Clos Nathaniel) yn ystod yr oedfa.

Llongyfarchiadau i Ann Howells, Delfryn a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed yn ystod y mis.

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Morris, Ostrey ar farwolaeth brawd Mr. Morris, sef yr Arglwydd Morris o Aberafan.



Llongyfarchiadau i Holly Mackay, Llyswen ar ennill tlws am ennill yr alaw werin a tharian am ddod yn ail yn yr unawd yn Eisteddfod Mynydd y Garreg. Llongyfarchiadau, hefyd, i'w mam, Liz, ar gael ei henwebu am y VTCT Excellence Award am ei gwaith yn hyfforddi myfyrwyr ar y cwrs harddwch yng Ngholeg Sir Gâr. Un o 5 a gafodd eu henwebu yn y Deyrnas Unedig!

Bu Daniel O'Callaghan yn brysur iawn dros yr Eisteddfod yn canu, chwarae offeryn, llefaru a chyfeilio. Roedd rhan flaenllaw ganddo yn Oedfa'r Eisteddfod yn chwarae rhan y Ficer Pritchard. Bu hefyd, yn arwain o'r llwyfan, y cystadlaethau yn y pafiliwn. Braf oedd gweld pobl ifanc yn cael profiad o'r gwaith hwn a llongyfarchiadau eto i Daniel am wneud ei waith yn ddeallus.

**Bethlehem Newydd**

Cynhaliwyd gwasanaeth blynyddol ardal San Cler ym Methlehem Newydd ar Fai 14eg. Y pregethwr gwadd oedd y Parch. Llewellyn Picton-Jones, Pontarddulais. Cafwyd neges bwrpasol ac oedfa fendithiol yn ei gwmni. Llywyddwyd gan y gweinidog a Dai Rees oedd yn cyfeilio wrth yr organ.
Ar fore Sul, Mehefin 4ydd cynhaliwyd Oedfa Gymun dan ofal y gweinidog a fu'n son am berthnasedd arwyddair yr Urdd, "Byddwch ffyddlon i Gymru, i

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230


*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

gyd-ddyn ac i Grist " yng Nghymru heddiw. Yn ystod yr oedfa cafwyd ddiweddariad ar waith Tŷ Croeso.

Bydd y Pererindod ar y cyd â Thabernacl, Hendygwyn ar Orffennaf 16eg. Enwau i'r gweinidog neu Annalyn cyn gynted â phosibl.


**Tŷ Croeso**
Mae casgliadau yn parhau tuag at y Banc Bwyd ac apêl am nwyddau plant bach Plant Dewi. Defnyddir yr ysgoldy i storio'r nwyddau a braf yw gweld cymaint sydd yn cael ei roi at yr elusen hon.

Cynhelir prynhawn agored "Bethlehem ddoe, heddiw ac yfory" ar brynhawn dydd Sadwrn, Gorffennaf 1af lle bydd cyfle i weld y capel ac arddangosfa o luniau cyn i'r gwaith gychwyn ar addasu yr adeilad. Darperir lluniaeth a bydd croeso i bawb.

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dafydd a Kelly ar eu priodas yng nghapel Bethlehem Newydd, Pwlltrap.




## LOGIN

**Calfaria**
Oedfaon
Diolch o galon i'r Parchedig Peter Thomas a Mr Hedd Ladd Lewis am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Gorffennaf
16eg: Alun Lenny - Cymun am 10.30 o'r gloch.
30ain: Catrin Isaac Thomas - Cwrdd am 10.30 o'r gloch.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Eurfyl a Jill Lewis ar ddod yn dadcu a mamgu am y tro cyntaf. Ganwyd bachgen bach o'r enw Twm Elias i'w merch Elen a'i phartner Dafydd. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Gwellhad**
Dymunwn wellhad buan i Val Owen, Llwynderw sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Les Owen ar farwolaeth merch ei gyfnither, sef Nicola Owen, Trefdraeth yn ddiweddar.

**Y Fynwent**
Mae'r fynwent yn edrych yn daclus ac yn gymen unwaith eto, diolch o galon i John Davies, Russell Davies a Bleddyn Davies am hynny.

**Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion**
Llongyfarchiadau i Eurfyl, ysgrifennydd y capel ar gael ei anrhydeddu yn Llywydd y Gymanfa mewn oedfa yng Nghapel Ebeneser, Llandeilo yn ddiweddar. Gweler adroddiad llawn o fewn y rhifyn hwn.

**Cymorth Cristnogol**
Trosglwyddwyd swm o £150 i elusen Cymorth Cristnogol yn ddiweddar, er mwyn cynorthwyo hwynt i barhau gyda'r gwaith gwych maent yn ei gyflawni ar draws y byd.

**Dechrau Canu Dechrau Canmol**



Roedd yn hyfryd i weld Capel Calfaria a pentre Login ar raglen Dechrau Canu Dechrau Canmol yn ddiweddar wrth i Eurfyl sgwrsio gyda Ryland Teifi am y pwysigrwydd o roi gwaed.

**Diolch.** Dymuna Mary Llewellyn, Garth, Login a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad wrth golli brawd, wncwl a ffrind arbennig sef Rhys Bowen, Dinas Cross. Diolch am bob gweithred o garedigrwydd.

## Canolfan Ffynnonwen
## APÊL

Fel y gwelwch ar y poster mae'r ganolfan yn dathlu 50fed penblwydd eleni. Fel rhan o'r dathliadau rydym am greu arddangosfa o luniau o unrhyw weithgareddau ers 1973 - y ganolfan, yr aelwyd, meithrin ac unrhyw ddosbarthiadau ayyb. Byddai hanes heb lun yn dderbyniol.. Felly plîs, plîs, chwiliwch amdanynt. Byddwn yn falch i'w rhoi yn yr arddangosfa. Rhowch eich henw ar gefn pob llun a chysylltwch neu eu rhoi i Roy Llewellyn, Meinir Eynon a Beti James erbyn 20fed Gorffennaf fan pellaf. Bydd yn hyfryd i weld yr hen luniau a fydd yn dod yn ôl a llawer o atgofion. Rydym am ddod yn ôl a'r lluniau i bawb. Felly ewch ati i chwilio amdanynt. Byddwn yn ddiolchgar iawn.
Cynhelir cyfarfod llawn nesaf y Ganolfan ar nos Fawrth 27ain Mehefin am 7.30.
Cefnogwch ni i drefnu dathliad haeddiannol.





arwyddion eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED IFAN LEWIS CARPENTRY
07456 626 735
info.ifanlewis@gmail.com

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

## Cylch Meithrin Ffynnonwen




Pob lwc i'r plant sydd yn mynd i'r ysgol llawn amser yn mis Medi!

# CWM MILES

Diolch i Arwel Evans am ei wasanaeth yng nghymundeb mis Mai ar Sul 28ain.

Yn anffodus mae'r Parchedig Euros Jones Evans wedi gorfod canslo yr oedfa ym mis Mehefin oherwydd afiechyd. Mae'r aelodau a'r gymuned yn dymuno adferiad buan iddo ac yn wir obeithio y bydd yn gallu gwasanaethu yng Nghapel Cwm Miles yn y dyfodol. Mae Annalyn Davies hefyd wedi gorfod canslo yr oedfa ar 23ain Gorffennaf oherwydd afiechyd. Disgwylir Mrs Ann Evans, yn awr i'r Cymun am 2 o'r gloch ar 23ain Gorffennaf. Dymunir adferiad buan i Annalyn ac edrychwm ymlaen at ei chroesawu eto.

# LLANDYSILIO

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Nia a Robert Farnden, ar enedigaeth merch fach, sef Lyra Tia, chwaer fach i Ema ac wyres fach newydd i Delyth a Michael Roblin, Glynty Farm.

....hefyd i Angharad a Rhys ar enedigaeth bachgen bach. Ŵyr cyntaf i Cerys ac Arwel Llewellyn, Bush Farm, Llandysilio.

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus hwyr i Alan Bowen o Maes Carafannau Llandysilio a oedd yn 80 nôl yn mis Mawrth.


**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Tori Thomas ar ddod yn Bencampwr Marchogaeth Goruchaf Cyffredinol, a Pencampwr Sioe Cymdeithas Merlod a chobiau Cymraeg Caerfyrddin.

**Awdur Newydd**



Mae Rhys Eynon newydd gyhoeddi ei nofel gyntaf sef The Maldoran Chronicles - The Unbreakable Will. Mae'r llyfr ar gael mewn clawr meddal o Amazon. Llandysilio oedd cartref gwreiddiol Rhys ond, erbyn hyn mae'n byw yn Hwlffordd.




Ar *Maldora* mae'r llyfr wedi'i seilio sef cyfandir hudol a chyfrinachol lle mae gwledydd yn creu un ymerodraeth. Mae allwedd am grair tywyll wedi cael ei ddwyn yn achosi rhyfela yn y brif ddinas wrth ymdrechu i ddod o hyd i'r arf mwyaf a wnaed erioed, a dyna yw'r Unbreakable Will.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

Yn y gorffennol mae Rhys wedi nofio i dîm Gemau Olympaidd Arbennig Cymru yn y Deyrnas Unedig. Mae wedi chwarae pêl droed i dîm Prydeinig Mencap yn Genefa, yn ogystal â bod yn Chwaraewr Anabledd y Flwyddyn Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Gwnaeth hefyd gario'r Dortsh Olympaidd trwy ganol Hwlffordd ym Mai 2012. Ar hyn o bryd mae'n gweithio rhan amser i Gyngor Sir Benfro fel un o bedwar hyrwyddwr anabledd.

Yn ystod cyfnod anodd y clo yn 2020, cafodd Rhys y tawelwch a'r ymroddiad i gadw ei hun yn brysur drwy orffen y llyfr. Hyd yn hyn mae wedi gwerthu 40 copi.

**Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi**

CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO

Neuadd Llandyslio, Llandysilio, Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY

Ar Agor: pob bore

9.00 yb - 12.00

Arweinydd: Liz Lewis

Rhif Ffôn: 07760135392

neu: cmllandysilio@outlook.com

*Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716*

Cylch Ti a Fi Llandysilio

I blant 0-4 oed a'i Rhieni/gwarchodwyr

Pob prynhawn Mercher (heblaw ail Mercher o bob mis)

12.00 - 1.30yp

£2.50

Neuadd Llandysilio



Pob lwc i'r plant sydd yn mynd i'r Ysgol yn mis Medi

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 10fed o Orffennaf yn Neuadd Llandysilio, am 7.30. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yno.

**Sefydliad Y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Ar 19eg o Fai, bu rhai o'r gwragedd yn cymeryd rhan mewn cystadleuaeth sirol (Anything goes) gyda'r sefydliad yn Theatr y Torch, Aberdaugleddau.

Ar Fai 20fed cymerwyd rhan mewn cystadleuaeth 'Curling' yn Neuadd Clunderwen.

Yn ein noson misol, fe aethom i Cilrath Acre, tu allan i Arberth. Cafwyd noson ddiddorol iawn.

Gardd gymunedol sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr o bob oed, i anelu at weithredoedd positif mewn ymateb i'r amgylchedd, tra'n helpu gyda thlodi bwyd, a chysylltu pobl gyda'i gilydd. Mae hanner y bwyd sy'n cael ei dyfu yn mynd i gefnogi banciau bwyd Sir Benfro.

Os hoffech ymuno fel gwirfoddolwr, treulio amser tu allan, mwynhau ffrwythau a llysie ffres lleol, dysgu am arddio a chefnogi tlodi bwyd, mae modd dilyn ar gyfrwng cymdeithasol Cilrath Acre a hello@cilrath-acre.org.uk am fwy o wybodaeth.

Gellir cyfrannu'n ariannol drwy:
www.localgiving.org.uk/charity/cilrath-acre
Rhif elusen gofrestredig: 1157963



the LONDON HOUSE butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN

**01994 240705 / 240055**

*Galwch mewn am y dewis gorau*

Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol

15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514



Ymweliad Sefydliad y Merched â Cilrath Acre

## 50 mlynedd o wasanaeth



Bydd Eleri Thomas o Llandysilio yn dathlu 50 mlynedd o wasanaeth gyda CCF yng Nghlunderwen ar y 1af o Orffennaf. Mae wedi gweithio yno ers iddi adael ysgol yn 16 mlwydd oed yn yr adran cyfrifon a chyflogau. Eleri yw'r aelod cyntaf o'r staff i gyraedd y garreg filltir hon.

Llongyfarchiadau mawr oddi wrth Sioned, Raymond, Cadi a Cai, Georgina ac Aled a'r teulu oll.



Eleri gyda'i chydweithwyr rhai blynyddoedd yn ôl



Eleri gyda'r diweddar Wendy Eynon ac Elaine Lloyd sydd yn dal i rannu swyddfa gyda hi.

# LLANGLYDWEN

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Elen, gynt o Lluest, a Dafydd ar enedigaeth eu mab, Twm Elias Davies ar Fai'r18fed.
Ŵyr bach cyntaf Eurfyl a Jill, a nai cyntaf Ifan a Tomos. Mae pawb wrth eu bodd ac wedi dotio'n lan.



Llongyfarchiadau hefyd i Tomos Lewis, Lluest ar gael ei ethol yn Llysgennad CFfI Sir Benfro am y flwyddyn i ddod.

**18fed Penblwydd**

Penblwydd hapus iawn i Callum Ashley Woodall, The Old Mill ar ei benblwydd yn ddenuaw oed ar Fehefin y 5ed. Pob dymuniad da iti Callum.

**Cyfarfod Pwyllgor Cymuned Llanglydwen**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor yn y Bont yn ddiweddar. Trefnwyd cynnal barbeciw i drigolion y pentref yn ystod yr haf.

Mae hwn yn ddigwyddiad blynyddol erbyn hyn ac yn gyfle gwych i drigolion hen a newydd i ddod ynghyd i ddod i adnabod eu gilydd.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf Dewch da ni ar Fws Cwm Tâf"
PENRHEOL, HEN-DY-GWYN, SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

# HENLLANFALLTEG



Penblwydd hapus iawn i'r bachgen yma a fu'n dathlu penblwydd arbennig yn 90 oed ar y 22ain o Fehefin.

....hefyd penblwydd hapus i Richard Williams, Blaenlliwe a fu'n dathlu penblwydd 50 oed yn ddiweddar.

# RHYDWILYM

Ar fore Sul, Mai 21ain braf oedd croesawu y Parch Peter M Thomas i'r Cwm unwaith yn rhagor. Llawer o atgofion hapus yn ei gwmni.

Yr oedd croeso hefyd i'r Parch Ken Thomas ar brynhawn Sul, Mehefin 4ydd. Daeth nifer o aelodau a ffrindiau o bell ac agos i'r oedfa Gymun dan ei arweiniad. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth.

Gorffennaf 16eg: Cymun am 2.00 - Mr Alun Lenny

Braf oedd clywed Ian Eynon yn sgwrsio ar Radio Cymru yn trafod llyfr mae Rhys ei fab wedi ei ysgrifennu.

Cydymdeimlwn â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a phob dymuniad da i bawb.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Cafwyd gwasanaeth Mr Dafydd Evans, Trelech a'r Parch. Huw George ym mis Mehefin. Diolch iddynt am lenwi'r Suliau.

Gorffennaf
2il: Cymundeb Mr. Arwel Evans -10.30
9fed: Oedfa dan ofal Y Parchg. Huw George - 2.00

**Cymorth Cristnogol:** Anfonwyd cyfraniad o £200 o'r eglwys i'r elusen.

**Gwellhad**

Mae Hubert Phillips wedi cael llawdriniaeth ar ei arddwrn yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddo.

**Eisteddfod yr Urdd**

Bu nifer o blant yr aelodau yn cystadlu a chymeryd rhan yng ngweithgareddau'r Eisteddfod yn Llanymddyfri.

**Gŵyl Cyfryngau Celtaidd**

Enillydd gwobr rhaglen adloniant orau yn yr ŵyl yn Iwerddon oedd Bore Cothi, BBC Radio Cymru. Mae Sioned Snelson yn un o'r cynhyrchwyr. Llongyfarchiadau i'r tîm i gyd.

**Cydymdeimlwn** â Derek James, Blaendyffryn ar farwolaeth ei ewythr Dilwyn James o Abergwaun yn ddiweddar.
....hefyd â Mrs Erica Bell, Bryndewi ar farwolaeth ei phriod Kevin ar Fai 27ain.

# SAN CLER

Llongyfarchiadau i blant yr ardal a fu'n rhan o weithgareddau Eisteddfod yr Urdd. Bu nifer fawr yn cystadlu gyda gwahanol Ysgolion ac Aelwydydd a gallwn ymfalchio yn eu llwyddiant i gyd.

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Unwaith bob chwech neu saith mlynedd bydd y Cwrdd Chwarter yn ymweld â ni. A dyna a ddigwyddodd ddechrau mis Mai.

Mae holl gapeli Gorllewin Caerfyrddin yn perthyn i Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin a braf oedd cael eu croesawu i'r Tabernacl.

Cafwyd y gynhadledd yn ystod y prynhawn pan gafwyd cyfle i drafod materion oedd yn berthnasol i ni fel Annibynwyr yn lleol ac yn genedlaethol. Croesawyd pawb gan Meryl James cyn i Dewi James a Mel Jenkins arwain y darllen a'r gweddïo. Rhoddwyd adroddiad o waith y capel yn ei bro heddiw gan Guto Llywelyn a Heather Jenkins fu'n chwarae'r organ yn ystod y prynhawn.

Ar ôl te hyfryd oedd wedi ei baratoi gan wragedd y capel, cafwyd cyfarfod yr hwyr. Arweiniwyd y defosiwn gan ddau o oedolion ifanc y capel sef Hedydd Thomas ac Owain Jones ac Eleri Lewis oedd yn chwarae'r organ. Uchafbwynt cyfarfod yr hwyr oedd anerchiad gan Ly-







wydd yr Undeb, y Parch Beti-Wyn James, Caerfyrddin. Roedd yr anerchiad yn ein herio i ddarganfod doniau newydd o blith ein haelodau ac yn ein herio ni i ymateb yn gyflym ac i addasu yn gyflym i sefyllfa crefydd yng Nghymru heddiw. Edrychwn ymlaen at groesawu'r Cwrdd Chwarter eto yn y dyfodol.





Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yn y Tabernacl



Fe wnaeth y gymdeithas 'Whitland History and it's People' gynnal digwyddiad yn y capel yn ddiweddar. Yr arbenigwr ar hanes lleol, Denley Owen, o Lanymddyfri, oedd y gŵr gwadd a rhoddodd anerchiad diddorol ar hanes y capel.

*Denley Owen a Debbie Rutter*

Mae dau o'r aelodau wedi cael ychwanegiad i'r teulu yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Malcolm a Jenny Roberts ar enedigaeth Chloe, chwaer fach i Gabby. A llongyfarchiadau i Edward a Rebecca Cole ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Margot Elizabeth.



Malcolm Roberts a Chloe



Margot Elizabeth Cole

## *Priodas Dda*



Hefyd fe wnaeth un o'r aelodau briodi ar ddechrau Mehefin. Llongyfarchiadau mawr i Alys ac Aled a phob dymuniad da wrth bawb yn y capel.

Dyma drefn beth sydd ymlaen yn mis Gorffennaf a chroeso cynnes i bawb :
Gorffennaf 2ail: 9.30: Tabernacl (Oedfa Gymun)
Gorffennaf 9fed: 2.00 Sul Sbesial yn yr Egin. C'fyrddin
Gorffennaf 16eg: Trip i Ardal Aberystwyth
Gorffennaf 23ain: 11.00 Tabernacl : Oedfa
Gorffennaf 30ain: 9.30: Tabernacl : Oedfa Gymun
Gorffennaf 31ain: 19.00: Festri y Tabernacl : Anerchiad gan Ifan Gruffydd, Tregaron ar y testun 'Cristnogaeth a Fi'

**AWEN TEIFI**
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

**CENNYDD JAMES**
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu Ifan Gruffydd (Tregaron) atom ar nos Lun, Gorffennaf 31ain am 7.00. Bydd yn rhoi anerchiad ar y testun 'Cristnogaeth a Fi' a bydd y noson yn rhan o 'Wythnos Hendy-gwyn 2023'. Pris mynediad fydd £3, bydd paned i ddilyn a chroeso cynnes i bawb.

*Gweler poster ar dudalen 6*

## Cylch Meithrin Hywel Dda




Mae'r Cylch wedi croesawu dwy aelod o staff newydd. Mae Nerys a Melanie wedi dechrau Prentisiaeth Gofal Plant gyda'r Urdd a dyma lun o'r ddwy wedi derbyn eu pecynnau anwytho wrth yr Urdd yn ddiweddar.

Mae pawb yn y Cylch yn dymuno pob lwc i chi gyda'r cwrs. Croeso i Gylch Meithrin Hywel Dda!

**Sioe Ffasiwn**

Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Hendygwyn

30ain Mehefin 2023 am 6.30yh

Tocynnau £10

Cysylltwch â: 07988 726615

Raffl ar gael ar y noson

Elw tuag at Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Hywel Dda

Pethau Olyv



# BANCYFELIN

**Capel Bancyfelin**

Braint oedd croesawu Ifan Gruffydd, Tregaron atom i Gapel Bancyfelin ar gyfer ein cwrdd pregethu blynyddol. Cawsom oedfa gofiadwy dan ei arweiniad.



Ifan Gruffydd a'i briod Dilys yng nghwmni'r Parchg Beti Wyn yng Nghapel Bancyfelin.

**Capel Cana**

Mwynhaodd rhai o aelodau Cana bryd o fwyd blasus iawn yn Y Plough, Felingwm. Cafwyd noson hyfryd o gymdeithasu dros bryd o fwyd ardderchog. Diolch i Rachael Garside, sy'n aelod yng Nghana am ein croesawu.



Aelodau Cana yn mwynhau yn Y Plough, Felingwm

**Cymanfa Bwnc**

Daeth aelodau a phlant o eglwysi Bancyfelin, Cana, Ffynnonbedr a Gibeon ynghyd i festri Cana ar gyfer Oedfa Deulu ar Sul y Gymanfa Bwnc eleni. Cyflwynodd pawb eu gwaith yn dda a chyflwynwyd neges gan Y Parchg Beti Wyn James gyda phawb yn ymateb yn wych. Diolch i bawb am bob cefnogaeth.

**GWASANAETH CEIR HENDYGWYN**

Canolfan atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb

**Dai James - Steven Owens**

Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

**SIOP SIAN CRYMYCH**

**Crefftau Cymreig**

*Gemwaith Rhiannon*


*Crisial Brenhinol Cymru*

*Crefftau Lleol*

*Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau*

*Crymych, SA41 3QF*

*FFÔN: 01239 831230*



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ

Ffôn: 01239 831537

e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com



Oedfa Deulu ar Sul y Gymanfa Bwnc

**CYMANFA GANU FODERN**

**Nos Sul, 17 Medi**
**am 7 o'r gloch**
**yng Nghapel Cana, Bancyfelin**

i ddathlu ail-agor y capel a 200 mlwyddiant yr Achos

Llywydd: John Thomas, Derllys gynt

Arweinydd: Meinir Richards

Dafydd Wyn Jones, Tenor
Côr Seingar
Côr Bois y Felin
Band Capel Y Priordy

Mynediad trwy rhaglen £5 ar gael yn fuan

**Gibeon**

Cynhaliwyd Oedfa Undebol yng Nghapel Cana ar brynhawn Sul, Mai 14eg. Paratowyd yr oedfa gan y Parch. Beti-Wyn James a bu aelodau o Cana, Gibeon, Ffynnonbedr a Bancyfelin yn cymryd rhan. Oherwydd bod plant yr Ysgol Sul mewn ymarfer gogyfer ag Oedfa Eisteddfod yr Urdd fe gyflwynwyd y weddi gan Beti-Wyn a Iona o Gibeon. Cafwyd oedfa fendithiol a chartrefol a braf oedd dod ynghyd fel pedair eglwys.

Cynhaliwyd Oedfa Gymun dan ofal y gweinidog yng Ngibeon ar Fai 18fed. Braf oedd cael cynulleidfa dda ynddo a chafwyd oedfa hyfryd. Hilary oedd yn cyfeilio.

Roedd plant yr Ysgol Sul yn ran o Gôr Ysgolion Sul Sir Gaerfyrddin a gymerodd ran yn Oedfa Eisteddfod yr Urdd yng Nghapel Tabernacl, Llanymddyfri ar fore Sul cynta'r Eisteddfod. Roedd yn oedfa hyfryd a gwefr oedd clywed y plant yn canu ag afiaith dan arweiniad Mared Williams o Gil y Cwm.

Roedd Llion, un o blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn Chwilio'r Chwedl ar y prynhawn Sul ac Elen Beynon yn aelod o Gôr Merched Hŷn Ysgol Bro Myrddin a enillodd eu cystadleuaeth. Roedd Elin-Wyn Williams, Lower Court yn un o feirniaid y cystadlaethau Dawns/Hip-hop/Stryd a Disgo, clod arbennig iddi.

# MEIDRIM

Croesawodd Glyn James, Lenny ac Angela o Drelech. Siaradodd Lenny am ei amser gyda'r Gwarchodlu Cymreig - lle roedd wedi ymweld â llawer gwlad. Yn 1982 cafodd ei ddanfon i ryfel y Falklands i amddiffyn ein tiriogaeth ac yr roedd yn amser erchyll. Mae wedi bod nôl i'r Falklands yn ddiweddar, wedi deugain mlynedd, i ail ymweld â'r lle a'r ffrindiau a wnaeth yno.

Bu Angela yn siarad am ofal croen. Daeth â chynnyrch Younique gyda hi ac fe wnaeth arddangos sut oedd ei ddefnyddio.

Mis nesaf byddwn yn mynd i'r Old Board School yn Sanclêr i gael te mefus. Yn rhoi raffl bydd Shirley Bowen, Morfydd Davies, Jan Harbour a Lawrence Thomas.

# LLANGYNIN

**Penblwydd hapus**

Llongyfarchiadau i Adrian Williams, Clawddcam, ar ei ben-blwydd yn 60 oed ar Fehefin10fed ac i Hefina Wyn Jones, Ger y Bryn, hithau'n dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed ar Fehefin 13eg.  Pen-blwydd hapus iawn i'r ddau!


**Gwellhad buan**

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Don Phillips, Blaenpant, George Bulford, Tŷ Olwen  a Granville Davies, Angorfa, y tri wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwetha.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Rhiannon Thomas, 4 Llys Coed, a'r teulu ar farwolaeth ewythr Rhiannon, sef Benjamin (Benj) Martin, gynt o Heol Shôn, Blaenwaun,  ond a oedd wedi symud ers rhai blynyddoedd bellach i Gartref Gofal Y Garreg Lwyd, Sanclêr.

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU,
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
PVC-U
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587






BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Cydymdeimlwn yn ddiffuant hefyd ag Eifiona ac Elfed Lewis, 3 Llys Coed, a'r teulu sydd wedi profi dwy brofedigaeth lem o fewn cyfnod byr o amser. Collodd Eifiona ei chyfnither Audrey James o Gaerfyrddin ar Fai 10fed ac ar Fai 25ain bu farw ei brawd, sef Eifion Rees o Gorslas.

**Clwb 60 +**

Ar yr 11fed o Fai cyfarfu'r Gymdeithas yn Neuadd Capel y Bryn pan y cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a digwydd bod roedd y Clwb yn dathlu 30 mlynedd o fodolaeth. Er fod yr aelodaeth rywfaint yn llai ar ôl y pandemig, roedd yna ysbryd o hyd. Newidiwyd rywfaint ar y pwyllgor wrth i Verian Williams ildio'r gaderyddiaeth ar ôl blynyddoedd lawer o fod wrth y llyw. Mae Verian wedi bod yn arbennig ac ymroddedig yn gwasanaethu'r Clwb ar bob adeg ac mae'n diolchgarwch yn fawr iawn iddo. Gobeithio y caiff well iechyd yn y dyfodol ac y bydd yn dal yn aelod ffyddlon o'r gymdeithas am sbel eto. Un arall sydd wedi bod yn ffyddlon yw'r ysgrifenyddes Rosemond Halls, ac mae hithau hefyd wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi wedi nifer o flynyddoeddd. Mae wedi parhau yn y swydd er iddi ers tro bellach symud i Gaerfyrddin. Diolch yn fawr Rosemond am gyflawni'r swydd mor gydwybodol a threfnu'r rhaglenni diddorol ar hyd y blynyddoedd. Mae'r trysorydd Roger Wakefield wedi cytuno i barhau i wneud ei swydd a diolch iddo yntau am ufuddhau i'r cais. Etholwyd Les Murphy yn gadeirydd newydd a dymuniadau gorau iddo fe. Mae swydd yr ysgrifennydd yn dal heb ei lenwi, ond dal mewn gobaith y daw goleuni ar y mater yn fuan. I orffen y cyfarfod cafwyd paned a darn o gacen y dathlu a phawb wedi gwir fwynhau.



Ar brynhawn Iau, yr 8ed o Fehefin cyfarfu'r Clwb eto yn ôl ei arfer o dan lywyddiaeth Les Murphy a chroesawyd Claire Bryant o Heddlu Dyfed Powys i'n plith. Claire yw Pennaeth Strategaeth a Pholisi ym Mhencadlys yr Heddlu yn Llangynnwr, Caerfyrddin a bu'n esbonio fel y maent i gyd sy'n gweithio i'r Heddlu yn atebol i Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys. Cafwyd prynhawn diddorol dros ben wrth iddi amlinellu gofynion ei swydd ac ateb cwestiynau niferus, ac amlygwyd ei hymroddiad i'w gwaith. Diolchodd Les iddi am brynhawn addysgiadol iawn. Yng ngofal y te oedd Menna, Marlene a Myra, a Susan enillodd y raffl. Ar Orffennaf 13eg byddwn yn mynd ar wibdaith yn cael ei drefnu gan Eifiona ac Elfed Lewis. Edrychwn ymlaen am barhad o'r haf ar y diwrnod hynny. Cofiwch fod yna groeso cynnes i chi ymuno â ni.

# EFAILWEN

**Llongyfarchiadau** calonog i Cerys Harries, Roseberry, Efailwen a Bleddyn Davies, Llandudoch ar eu dywed-diad yn ddiweddar.

***Priodas Dda***



Dymuniadau gorau i Sioned a Reece Morris-Woolcock ar eu priodas yng Ngelli Fawr ar y 31ain o Fai. Maent wedi ymgartrefi yn Wolverhampton. Mae Sioned yn ferch i Roy Morris, gynt o Pantycaws ac yn wyres i'r diweddar Ellis a Gwawr Morris, Lanteg.

Cariad a phob bendith iddynt yn eu bywyd priodasol.

*Roy Morris*



*Penblwydd Hapus*

Mae eu mab Ellis newydd cael ei ben-blwydd yn 2 oed ar ddydd Sul, 4ydd o Fehefin.

Penblwydd hapus a chariad mawr wrth Cu. xx

# TRELECH

**Llongyfarchiadau** i Miriam ac Owain, Hen Ffald ar enedigaeth mab bach - Myrddin James Thomas. Ŵyr bach cyntaf i Terry a Meinir, Fronglyd a brawd bach i Eiry.

.... hefyd i Ina Barnett,Clun View ar ddod yn hen famgu am y tro cyntaf. Mae Lowri Elen yn ferch i Simon a Rachel, Rhydargaeau ac yn wyres i Wyn ac Olivia, Llan - newydd.

....hefyd i Jon a Louise, Swn y Nant a'r merched ar enedigaeth bachgen bach - Finn.

**Cydymdeimlwn** â Val Davies, Preseli a Mary Thomas, Trewen ar golli ei nith Ceinwen o Brynhoffnant yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i holl blant ac ieuenctid yr ardal am eu llwyddiant arbennig yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri yn ystod y mis a aeth heibio.

Bydd mabolgampau y pentref yn cael ei cynnal ar nos Wener, y 14eg o fis Gorffennaf ar gaeau ysgol Hafodwenog. Dewch yn llu!

# CLUNDERWEN

**Diolch**
Hoffai Ann, Janet a'r teulu ddiolch o waelod calon am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ôl colli mam, mamgu, hen famgu a hen hen famgu, sef Nin Lewis, Min y Ddôl,Clunderwen.
Casglwyd cyfanswm o dros £700 tuag at yr elusenau canlynol:- Paul Sartori, Nyrsys Arberth a Doctoriaid Hendy Gwyn ar Daf. Diolch yn fawr i bawb.

# RHYDYCEISIAID

**Pulpud**
Hyfryd oedd cael gwasanaeth y Parchedig. Guto Llywelyn yn oedfa'r Cymun Sul, Mehefin 4ydd a diolch iddo.

**Penblwyddi**
Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Eifion Griffiths, Brynsiriol a fydd yn 81 oed ar Fehefin 26ain, ac i Marlene Lewis, Hafan Glyd a fydd yn 88 oed ar Orffennaf 11eg.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Eifiona ac Elfed Lewis a'r teulu, Llyscoed ar farwolaeth brawd Eifiona sef Eifion Rees, Gorslas.

# LLANBOIDY

**Cydymdeimlo**
Gyda thristwch daeth y newyddion am farwolaeth Lyn Kendall, Crud-yr-Awel ar ôl cystudd hir. Roedd y gwasanaeth angladdol yn y Trinity o dan ofal y gweinidog y Parchedig Guto Llywelyn ac yn cael ei gynorthwyo gyda'r ficer, y Parchedig Jeni Parsons. Cydymdeimlwn gyda'i gŵr Ken, eu mab a'r teulu oll.

**Sefydliad y Merched**
Cyfarfu'r aelodau ar Fai 11fed gyda Denise Harris yn y gadair. Bu'n croesawu aelod newydd sef Cheryl a tair arall oedd yn gobeithio ymaelodu. Croesawodd y llywydd y gwestai, sef Paulina Hollocico a bu'n esbonio rhinweddau yoga ar y corff. Diolchodd Jayne Evans iddi am araith diddorol. Enillydd y gystadleuaeth am ffoto o Gymru Wyllt oedd Mair, a Denise enillodd y raffl. Roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Eiry Williams a Chris Murrell.

**Diolch**
Dymuna Gwynlais a Mary Phillips ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a negeseuon wnaethant dderbyn ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch o galon i chi gyd.


**Neuadd y Farchnad Llanboidy**

**SIOE FFASIWN**

Noson codi arian i elusen cancr

*Casgliad o Ffasiwn*
*Mrs Margarette Hughes*

*Pwdin a Pais*

*Bwffe a gwydriad o win*

*Raffl*

Nos Wener, Medi 8fed
am 7 o'r gloch

**Tocyn £20**
ar gael yn Spar, Llanboidy

Byrddau ar gael


# PENYBONT

**CFfI Penybont - Rali CFfI Sir Gâr 2023**

Roedd Rali dipyn yn wahanol i aelodau'r Clwb eleni wedi ein llwyddiant o ennill yr adran hŷn ac adran iau yn 2022. Yn hytrach na ddiwrnod bishi o gystadlu, cafwyd diwrnod (ac wythnosau o flaen llaw!) hyd yn oed yn fwy bishi o drefnu a stiwardio y Rali ei hun a Dawns y Rali! Diolch o waelod calon i bawb o'r gymuned am eich cymorth wrth ymgymryd â'r her, mae llawer gormod o chi i enwi'n unigol ond mae eich cefnogaeth parod werth y byd!

Er bod dipyn llai o gystadlu eleni, roedd nifer o'r aelodau yn yr adran iau wedi ymgymryd â gwahanol gystadlaethau a bu nifer o'r aelodau iau a hŷn yn cystadlu yn Barnu Stoc Cyn-Rali. Wele ganlyniadau llawn y Clwb isod a llongyfarchiadau enfawr i chi gyd!

2il – Gwaith Coed Iau – Gwion Jones-Howells a Sion Evans
2il – Saethu Colomenod Clau – Olwen Roberts
3ydd – Gosod Blodau dan 16 oed (NFYFC) – Olwen Roberts

Llongyfarchiadau hefyd i Elan Thomas am y marciau unigol gorau yn y Barnu Defaid Charolais a'r Barnu Moch yn yr adran iau!

Saib haeddiannol i bawb nawr dros yr haf cyn bwrw ati unwaith eto ym mis Medi!

# NEWYDDION BLAENCONIN

## Y GYMANFA BWNC 2023

Yn dilyn wythnosau o baratoi, hyfrydwch pur oedd dod ynghyd ar y Sulgwyn i'r Gymanfa Bwnc. Y bumed bennod o Efengyl Mathew ac adnodau 1 – 12 oedd y testun o dan sylw a chafwyd budd a bendith yn ystod yr wythnosau diwethaf yn trin a thrafod cynnwys y bennod. Mae cynnwys y bennod yn gyfarwydd i'r mwyafrif ohonom ond braf oedd cael ystyried ystyr ar arwyddocâd yr adnodau.

Trafodwyd pynciau ysgrythurol a chyfoes gan gynnwys ystyr geiriau Groeg, Hebraeg ac Aramaeg ynghyd ag Eisteddfod Llangollen, protestwyr 'Just Stop Oil', rhif y pysgod yn yr afon Tâf, teuluoedd brenhinol Ewrop a nifer o destunau diddorol.

Daeth cymeriad ambell un i'r golwg a braf oedd eu clywed yn rhannu profiad a lleisio barn.
Bellach, mae disgyblion Crist y cyfnod presennol yn deall yn well ystyr yr hyn a draddodwyd i'w disgyblion dwy fil o flynyddoedd yn ôl. 'Gwyn eu byd' yn wir a 'Gwyn ein byd' hefyd ! Diolch i'r ffyddloniaid am gefnogi'r Ysgol Sul ac am gyfrannu i'r trafodaethau.

Mae llwyddiant y Gymanfa Bwnc a pharhad yr ŵyl yn dibynnu arnom ni ac mae'n dyled ni'n fawr i'r bobol hynny sydd yn 'gweithio gwaith y nef'. Mae'r Gymanfa Bwnc yn bod am fod aelodau a chyfeillion yr Eglwys yn dewis cefnogi'r ŵyl.

Gan fod y Sulgwyn, yn ôl rhai, yn ddiwrnod 'geni' yr Eglwys Gristnogol manteisiwyd ar y cyfle i ddathlu'r pen-blwydd gan rannu cacen arbennig. Boed bendith ar drafodaethau'r Gymanfa Bwnc ac ymdrechwn i gofio a gweithredu geiriau Iesu ac o wneud hynny, byddwn ninnau yn profi llawenydd a boddhad yn yr ysbryd.

## 'Pawb a'i Farn'

Mae gyrfa Siôn Jenkins, Bro Silio, yn mynd o nerth i nerth a braf oedd ei weld yn cyflwyno 'Pawb a'i Farn' o Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri.

Mae gan Siôn y ddawn i wrando a gadael i'r cyfranwyr gael lle ac amser i ddweud eu barn ac yn wahanol i gyflwynwyr eraill, yn barod i sefyll nôl. Yn ystod y rhaglen, bu Siôn yn arwain y drafodaeth ar Hawliau Trans, Amaethyddiaeth a'r Cyfryngau Cymdeithasol. Llongyfarchiadau Siôn !

## AWDUR O FRO SILIO

Mae Rhys Eynon a fu gynt yn byw ym Mryn Briallu, Llandysilio, bellach wedi cyhoeddi llyfr o dan y Teitl ' 'The Maldoran Chronicles'.
Mae Rhys wedi bod yn gweithio ar y llyfr ers dros 10 mlynedd ac wedi bod yn barod i dderbyn cyngor a chyfarwyddyd oddi wrth nifer o bobol.

Mae rhagarweiniad y llyfr yn dechrau fel hyn …

Maldora
Cyfandir o hud a chyfrinachau,
lle mae teyrnasoedd yn rhwym
i un Ymerodraeth.
Mae allwedd ar gyfer
crair tywyll wedi'i ddwyn.
Bydd llu hynafol
yn cael ei ryddhau ar y tir.
Ffydd, diniweidrwydd, dialedd,
gallu a phrynedigaeth.
Bydd llawer o gefndiroedd
yn gwrthdaro ym mhrifddinas
yr Ymerodraeth Maldoran,
gan chwilio am yr arf mwyaf
a wnaed erioed :
Yr ewyllys na ellir ei thorri.

Mae Rhys yn fab i Sandra ac Ian Eynon. Pob hwyl i Rhys! Mae llyfr arall 'ar y ffordd' ac, yn ôl Rhys, bydd y thema yn wahanol iawn.

## Anturiaeth yr Arfordir


Mae'r anturiaethwyr wedi bod yn brysur yn ystod y mis ac wedi llwyddo i gwblhau sawl cymal. Dychwelodd y cwmni i Borth Clais ar y Sadwrn olaf o fis Mai yn brydlon am 9 o'r gloch y bore i gerdded ar hyd yr arfordir i Gaer Bwdy.
Sylwyd ar yr enwau difyr a doniol a roddwyd i ambell le gan y tadau … Trwyn Cynddeiriog …
Enwau eraill a welwyd oedd Pen y Cyfrwy …
Porth Coch Mawr … a nifer o enwau diddorol arall.
Rhaid oedd oedi am ychydig yn St Non's … man geni Dewi Sant, cyn cerddded ar hyd Ffordd Aaron i draeth Caerfai. Roedd yr olygfa ar hyd y daith yn fendigedig. Daeth y daith i ben ar draeth Caer Bwdy.

Ac ar y Sadwrn cyntaf o Fehefin, dychwelodd y cwmni i Gaer Bwdy gan deithio i gyfeiriad Trelerw a Phorth y Rhaw.

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol


Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
*Cartref Oddi Cartref*

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

Gwelwyd Tŷ Llanunwas yn y pellter cyn disgyn i Borthladd Solfach – am olygfa ! Wedi'r disgyn ... y dringo ... ac felly, lan dros y Gribin a lawr i draeth Gwadn. Dringo o'r Gwadn gan gyfeirio'r traed i Garreg Dilys ac Ogof Dwy-graig. Bellach, roedd yr Anturiaethwyr wedi cyrraedd Porth y Bwch a thir Llaneilw. Ymlaen i Dinas Fach, Lochfaen a Dinas Mawr. Daeth yr anturiaeth i ben ar draeth Porth Mynawyd. Un ymdrech fawr i ddringo o'r traeth i Fferm Casbwnsh ac yno, cyfle i fwynhau hufen-iâ !

Am 9 o'r gloch fore Sadwrn, 10fed o Fehefin, dychwelodd yr Anturiaethwyr i Borth Mynawyd gan droi i gyfeiriad Ogof Felen a Chwm Bach. Unwaith eto, wedi disgyn ... rhaid dringo ac anodd oedd y daith o Gwm Bach i Gwm Mawr ac os 'anodd' oedd y daith o un Cwm i'r llall, anoddach oedd y llwybr o Gwm Mawr i Bryn y Môr ar ben y graig. Wedi'r dringo, cafwyd yr olygfa hyfryd o draeth Niwgwl.

Disgyn o'r uchelder gan deithio ar hyd y traeth euraidd. Wedi cyrraedd y pen draw, dringo eto a hynny i gyfeiriad Trwyn Maidenhall ac ymlaen i hen Bwll Glo Trefran. Serth oedd y llwybr o Drefran i Rickets Head ond ... wedi'r ymdrech fawr ... daeth Nolton Haven i'r golwg ... a diwedd i Anturiaeth arall.

**BORE COFFI RATIFA**

Daeth y ffyddloniaid ynghyd ar yr ail Sul o Fehefin i gofio Ratifa. Diolch i Eryl a Huw am baratoi'r lluniaeth.
Mae Ratifa yn dathlu ei phen-blwydd ar 30ain Gorffennaf ac mae'r Eglwys wedi anfon carden a rhodd iddi mewn da

## *Beirdd Blaenconin*

**Anturiaeth yr Arfordir - 11**

Naw o'r gloch un bore Sadwrn –
heulwen dros y fro,
Anturiaethwyr yr Arfordir
wrthi unwaith to.
Niwl yn cuddio pen Carn Lleity –
niwl y bore wawr,
Tri yn troedio tua'r tywod –
Croeso i Draeth Mawr !

Tir Pencarnan ddaw yn gyflym –
'Prydferth' yw y gair.
Edrych lawr ar draeth Porth Selau –
gweld y tywod aur.
Cerdded tua Phenrhyn Ioan –
milltir, falle mwy,
Gweld y cloddiau'n frith o flodau –
perthi perta'r plwy'.

Ynys Dewi ddaw i'r golwg –
pawb yn teimlo'n llon ;
Tawel yw y tonnau heddiw –
tyner yw y don.
Ym Mhorth Stinan, cofio'r Meudwy –
Cristion taer a thriw ;
Hanes difyr sydd amdano –
un o fawrion Duw.

Gweld y 'Bitches' - cofio'r angau –
oedi unwaith to
ar y creigiau, ac edmygu
dewrder bois y fro.
Tir Treheinif a Charn Rhoson –
eithin, mawn a grug ;
Parc y Ffynnon a Threginnis -
cyrraedd Carn y Wîg.

Penmaen Melyn, Ogof Cadno,
hedd yn agosáu ;
Lle bu gwendid - wele gryfder –
pawb yn bywiocáu.
Ym Mhorth Clais – Y Mabinogi –
Twrch yn dod o'r dŵr,
Anturiaethwyr dewr yn gwenu –
gorffwys nawr mae'n siŵr.

---

**Anturiaeth yr Arfordir - 12**

Naw o'r gloch ac unwaith eto,
Cerdded lan o'r traeth,
o Borth Clais, y Twrch a'r tonnau –
pedwar sydd ar daith.
Dweud ffarwel i'r Porthladd tawel,
hwyl i'r cychod bach ;
Cymryd camau cynta'r bore
yn yr awel iach.

Trwyn Cynddeiriog (Canlyn Cymru)*
Porth Coch Mawr - mor braf ;
I St Non's - man geni Dewi,
yn yr heulwen braf.
Gosod traed ar hyd Ffordd Aaron,
edrych dros y bae ;
Ynys Sgomer ddaw i'r golwg –

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES

Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: 01239 612814 / 07765 034705

ninnau yng Nghaerfai.

Creigiau geirwon ym Mhenpleidiau
gwylan sydd uwchben,
Tonnau'r môr yn dawel heddi –
heulwen uwch ein pen.
Camau olaf antur arall,
diwrnod da o waith,
Cael ein  traed ar draeth Caerbwdy –
gorffwys wedi'r daith.

**Yr enw Saesneg mae'n debyg yw 'Red Wall'*

---

**Anturiaeth yr Arfordir – 13**

Sadwrn cyntaf mis Mehefin –
dechrau cerdded erbyn naw,
o Gaer-Bwdy i Drelerw –
yna, mlân i Borth y Rhaw.
Dringo'r llwybr tua'r nefoedd –
grisiau cadarn dan bob troed,
Cilio mae yr eithin bellach –
Tŷ Llanunwas yn y coed.

Harbwr Solfach – am olygfa,
clywed plant yn chwarae'n llon,
Amyneddgar yw y cychod –
aros ... aros ... am y don.
Gadael Solfach, serth yw'r llwybr,
pawb yn cymryd camau bach,
Yna, ar ein pen i Gwadn –
gwerthfawrogi'r awel iach.

Carreg Dilys ddaw i'r golwg,
Ogof Dwy-graig – cartre'r Wrach,
Porth y Bwch, golygfa hyfryd,
Dinas Fawr a Dinas Fach,
Fferm Lochfaen a Phorth Mynawyd,
Disgyn ... dod a'r daith i ben,
Hufen-iâ Cas Bwnsh yn hyfryd,
gorffwys bellach. Hwyl ! Amen.

---

**Anturiaeth yr Arfordir – 14**

Porth Mynawyd fore Sadwrn,
Dringo'r llwybr lan o'r traeth,
Ogof Felen ddaw i'r Golwg-
Antur arall sydd ar waith.
Troi ein llygaid tua'r dwyrain,
Gweld Cwm Bach yn agosáu,
Edrych draw ar Ynys Skomer -
Cartre'r Pâl - ar draws y Bae.

Disgyn i Gwm Mawr yn gyflym,
Llwybr serth sy'n codi draw,
Camau bach a chamau cyson
Ddaw a llwyddiant maes o law.
O Gwm Mawr y grisiau creulon
Yn ein dwyn i Fryn y Môr,
Edrych lawr ar hir-draeth Niwgwl,
Un o wyrthiau mawr yr Iôr.

Troedio'r traeth cyn esgyn eto,
Dringo dros y cerrig mân,
Heibio'r Trwyn, ac esgyn eto,
Cyn cael golwg ar Drefran.
Hen Bwll Glo a'i dwr yn sefyll
Heddiw'n segur yn y gwynt,
Lleisiau ddoe yn dal i dystio
Am y 'gwaith' o'r dyddiau gynt.

Disgyn … esgyn … disgyn eto,
Rickets Head - mor ddu â'r glo,
Oedi … gorffwys … sylweddoli …
Rhaid bydd dringo unwaith to !
Teimlo'r coesau bach yn blino,
Pen y daith yn agosáu ;
Nolton Haven ddaeth i'r golwg …
Gorffen ... Gorffwys ... Llawenhau !

## Trefn Oedfaon

**Dydd Sul, 2il Gorffennaf**
Oedfa Bregeth - 10.30

**Dydd Sul, 9fed Gorffennaf**
Bore Coffi Ratifa - 10.00
Oedfa Gymun - 1030

**Dydd Sul, 16eg Gorffennaf**
Oedfa Bregeth - 10.30

## NEWYDDION o'r FFYNNON

**TIR TREFANGOR**

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd y gwaith o lanhau a thacluso'r ardd gladdu yn Nhrefangor yn dechrau. Mae un o fechgyn ifanc yr ardal wedi cytuno ymateb i'r her. Bydd yn tacluso'r tir o amgylch y capel hefyd. Diolch iddo.




## BURGER
### Cig Oen gyda Mint

Cynhwysion:-

1 pwys o friw-gig oen
4 owns o friwsion bara
1 winwnsin ei falu
Croen ½ lemwn (wedi gratio)
2 lwy fwrdd o fint wedi ei falu
1 wy wedi ei guro
Pupur a halen

DULL.

1. Cymysgu'r cyfan yn dda, mewn bowlen
2. Siapiwch 8 neu 10 'burger' gyda dwylo wedi eu gorchuddio a blawd.
3. Ffriwch y 'burgers mewn padell ffrio.

---

**DRESIN i roi ar salad**

1  6 llwy ford o olew olewydd
2. 3 llwy ford o win finegr
3. 1 clof o garlleg wedi ei wasgu
4. 1 llwy ford o bersli wedi ei falu'n fan.

Cymysgwch cynhwysion y dresin yn dda a'i arllwys dros y salad.

Ken Davies a'i Fab
Cigyddion


London House
Crymych


Ffôn: 01239 831978

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG


MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn:  01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener  7- 5.30
Sadwrn  7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sul 2ail Gorffennaf | ARFORDIR CYFAREDDOL KENT A CHASTELL LEEDS | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 7fed Gorffennaf | SIOE FLODAU FAWREDDOG HAMPTON COURT | £360 | 3 Diwrnod |
| Llun 10fed Gorffennaf | O AMGYLCH FFINIAU CYMRU (Welsh Borders) | £520 | 5 Diwrnod |
| Iau 13eg Gorffennaf | TAITH FACH FYR I'R COTSWOLDS | £290 | 3 Diwrnod |
| Gwener 28ain Gorffennaf | CYCHOD A THRENNAU Y TYROL YN YR AWSTRIA | £995 | 8 Diwrnod |
| SUL 30ain Gorffennaf | CAMBRIDGE | £525 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Awst | "PEAK DISTRICT" CANOLBARTH A GOGLEDD LLOEGR | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 11fed Awst | GWYL RHYNGWLADOL BALWNS BRYSTE | £255 | 3 Diwrnod |
| Llun 14eg Awst | DURHAM A BEAMISH | £515 | 5 Diwrnod |
| Llun 21ain Awst | WINDSOR FRENHINOL a'r GOGONEDDUS WISLEY | £535 | 5 Diwrnod |
| Mercher 23ain AWST | SIOE AGER A HEN BEIRIANNAU DORSET - BOURNEMOUTH | £395 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Awst | TEITHIO A HWYLIO YN ARDAL Y LLYNOEDD | £530 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Medi | GWESTY'R BELGRAVE SANDS TORQUAY | £375 | 4 Diwrnod |
| Llun 11fed Medi | NORFOLK - SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Medi | Dewch i ddarganfod cyfrinachau DUMFRIES a GALLOWAY | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 24ain Medi | ARFORDIR A CHLOGWYNI DONEGAL YR IWERDDON | £675 | 6 Diwrnod |
| Llun 25ain Medi | GOLEUADAU A GOLEUANNAU BLACKPOOL | £360 | 5 Diwrnod |
| Sul 1af Hydref | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 6ed Hydref | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwener 13eg Hydref | HWYL a SBRI gyda CLIVE a'I Ffrindiau yn BOURNEMOUTH | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 20fed Hydref | AWYRENNAU, TRENNAU A CHERBYDAU | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 27ain Hydref | WESTON SUPER MARE | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Tachwedd | TWRCI A THINSEL YN DYFFRYN GWY (Wye Valley) | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Tachwedd | UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE | £295 | 4 Diwrnod |
| Llun 13eg Tachwedd | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £515 | 5 Diwrnod |
| Gwener 17eg Tachwedd | MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER | £245 | 3 Diwrnod |
| Sul 19eg Tachwedd | TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH | £510 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain Tachwedd | TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY | £440 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Rhagfyr | Ymunwch â Santa ar TREN Y GOLEUNI NADOLIG YN PAIGNTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Sul 3ydd Rhagfyr | Taith i CERNYW, St Agnes, Penzance a Falmouth | £330 | 4 Diwrnod |
| Llun 4ydd Rhagfyr | CRACER NADOLIG CERNYWEG YN LOOE | £410 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Rhagfyr | PENWYTHNOS PARATOI AR GYFER Y NADOLIG YN LLUNDAIN | £290 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 30ain Rhagfyr | DATHLU'r FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON | £490 | 4 Diwrnod |

## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 12fed Ionawr | Penwythnos yn yr hên Ffefryn - WESTON SUPER MARE | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwener 19eg Ionawr | Aduniad Cwsmeriaid a Ffrindie Bysiau Cwm Tâf yn TORQUAY | £260 | 4 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru -Gwesty'r Talbot, Stillorgan | £465 | 4 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Gêm Rygbi Iwerddon v Cymru - Gwesty'r Bonnington, Dulun | £465 | 4 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru - ENNISCORTHY | £385 | 4 Diwrnod |
| Gwener 1af Mawrth | Ymunwch â Clive a'r criw i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon | I ddod | 3 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BECA

**Gwersyll Llangrannog**





Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ffodus i fynd am dridiau i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog ar ddechrau mis Mai. Yno, cafodd y disgyblion amser arbennig yn mwynhau llu o weithgareddau newydd a chyffrous. Uchafbwynt y daith oedd cael cerdded draw i bentref Llangrannog a mwynhau hufen ia ar y traeth. Diolch i wersyll Llangrannog am amser arbennig!

**Prosiect 23**

Llongyfarchiadau mawr i Efan ac Euan o ddosbarth Cwmcerwyn a gymerodd rhan yng nghyngerdd agoriadol Eisteddfod yr Urdd 2023 yn Llanymddyfri.




Roedd y bechgyn yn rhan o grŵp o ddisgyblion lleol a berfformiodd chwedl Twm Sion Cati ar lwyfan y Pafiliwn Gwyrdd. Da iawn chi fechgyn!

**'Walk through the Bible'**

Yn ystod yr hanner tymor hwn, mae disgyblion dosbarth Cwmcerwyn wedi bod yn ffodus i dderbyn sesiynau wythnosol gan 'Walk through the Bible'. Mae criw 'Walk through the Bible' wedi dod a'r Hen Destament yn fyw i'r disgyblion wrth iddynt berfformio testunau a gweithio trwy lyfr gweithgaredd. Diolch am ddod i Ysgol Beca.

**Taith Carn Gyfrwy i'r Parc Deinosoriaid**

Ar y 24ain o Fai buodd dosbarth Carn Gyfrwy ar daith i'r Parc Deinosoriaid yn dilyn eu gwaith y tymor hwn yn dysgu am ddinosoriaid. Cafodd bawb ddiwrnod arbennig yn crwydro'r parc. Gorffennodd y diwrnod gyda'r disgyblion yn chwarae tu allan yn yr haul. Diwrnod i'w chofio!





### Ymweliad gan yr RNLI



Yn ddiweddar, bu'r RNLI yn yr ysgol i drafod sut i gadw'n ddiogel ar y traeth ac yn y môr. Cafodd y disgyblion y cyfle i wisgo dillad yr RNLI a chyfle i drafod pa mor bwysig ydyw i fod yn ddiogel yn nŵr y môr. Diolch am eich ymweliad gwerthfawr.

### Dathliadau 50 yr ysgol

Byddwn yn dathlu penblwydd yr Ysgol yn 50 eleni ar y 14eg o Orffennaf. Rydym yn awyddus i groesawu'r gymuned a ffrindiau'r Ysgol i ddathlu gyda ni. Bydd y dathliad yn dechrau am 6yh. Byddwn yn cynnal twmpath dawns a bydd disgyblion yr ysgol a'r Welsh Whisperer yn perfformio. Bydd tocynnau ar werth yn yr Ysgol o'r 12fed o Fehefin ymlaen. Pris tocyn yw £15 i oedolion a £5 i blant. Rydym yn edrych ymlaen i'ch croesawu!

Rydym fel ysgol yn awyddus i gasglu hen luniau o'r ysgol a cyn-ddisgyblion. A bod gennych luniau hoffech eu rhannu, gofynnwn yn garedig i chi ddod a'r lluniau i'r ysgol er mwyn i'r ysgol eu benthyg fel rhan o'n dathliadau.

# YSGOL BANCYFELIN

### Eisteddfod yr Urdd - Prosiect 23



Llongyfarchiadau mawr i Gwion James a Mari Evans am eu perfformiad arbennig yn Sioe Chwilio'r Chwedl- profiad bythgofiadwy i'r plant a da iawn hefyd i Meilyr James ar ei berfformiad gwych yn y gystadleuaeth Llefaru i ddisgyblion Blwyddyn 2 ac iau.

### Celf yr Urdd



Llongyfarchiadau i'r uchod am eu llwyddiannau yng ngwaith celf y Sir Eisteddfod yr Urdd.

1af- Isla Wilson- Graffeg Cyfrifiadurol
1af -Emily Fenemore- Cynllunio Crys T
1af -Macsen Bowen -Gwaith 3D
2il- Jac Morris – Graffeg Cyfrifiadurol
2il - Macsen Bowen -Creadigol 2D
2il - Isla Mason- Graffeg Cyfrifiadurol
3ydd- Esther Symis- Graffeg Cyfrifiadurol
3ydd - Connor Coffin- Graffeg Cyfrifiadurol
3ydd - Macsen Bowen- Ffotograffiaeth- Llun Du a Gwyn
3ydd - Macsen Bowen- Ffotograffiaeth- Cyfres o luniau lliw.

### Gwersyll Llangrannog

Bu disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 y Ffederasiwn yn mwynhau tridiau yng Ngwersyll Llangrannog cyn hanner tymor. Roeddent wrth eu bodd yn mwynhau'r gweithgareddau amrywiol - o wibgartio, i sgïo, mar-

chogaeth ceffylau gan enwi ond ychydig, heb anghofio'r daith gerdded i draeth hyfryd Llangrannog.



Plant Bl. 4, 5 a 6 yn Llangrannog

**Taith Rheilffordd Henllan**



Tra bod plant hŷn yr ysgol yn Llangrannog aeth pawb arall ar daith hyfryd i reilffordd Teifi yn Henllan. Treuliwyd diwrnod braf yn teithio ar y tren i weld rhaeadr, gan ymweld ag ystafell yr injan a chwilio am gorachod ar y tren bach.

**Gwylwyr y Glannau**

Yn ystod yr hanner tymor bu gwylwyr y glannau'n ymweld â'r ysgol gan ddysgu'r disgyblion am ddiogelwch ar lan y môr.

# YSGOL BRYNCONIN

**Celf a Chrefft yr Urdd**

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd rownd sirol eleni. Braf oedd gweld nifer o dystysgrifau yn dod nôl i Ysgol Brynconin.

Dyma ganlyniadau Celf a Chrefft Sir Benfro:

**Cyntaf**

Heti Davies – dylunio crys-t
Harry Cotter – dylunio crys-t
Lilybeth Phillips – gwaith creadigol 2D
Archie Hammersley – cyfres o luniau lliw
Cynan Makepeace – creu tecstiliau
Heti Davies – gwaith creadigol 3D
Criw Blwyddyn 5 – creu tecstiliau

**Ail**

Llŷr Blethyn – lluniadu 2D
Heti Davies – gwaith creadigol 2D
Magi John – cyfres o luniau du a gwyn
Ela Blethyn – argraffu
Llŷr Blethyn – argraffu
Ela Blethyn - tecstiliau creadigol
Criw Blwyddyn 6 – creu tecstiliau

**Trydydd**

Poppy Hammersley – lluniadu 2D
Aurora Hammersley – ffotograffiaeth du a gwyn
Archie Hammersley – ffotograffiaeth du a gwyn
Ela Blethyn – creu tecstiliau
Heti Davies – uwchgylchu
Auroa Hammersley – gemwaith



Enillwyr Sir Celf a Chrefft

**Celf a Chrefft yr Urdd yn Genedlaethol**



Llongyfarchiadau enfawr i Lilybeth Phillips a chriw o Flwyddyn 5 am ennill gwobrau Celf a Chrefft yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr eleni. Derbyniodd Lilybeth y drydedd wobr am ei gwaith creadigol 2D a derbyniodd criw o Flwyddyn 5 yr ail wobr am eu gwaith gwehyddu.

**Gwaith Llenyddol**



Llongyfarchiadau enfawr i Cynan Makepeace am ennill y 3ydd wobr am gyfansoddi barddoniaeth yn y cystadlaethau llenyddol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – camp a hanner yw ennill gwobr dros Gymru gyfan.

**Llangrannog**



Cafodd blant Dosbarth Rhuddem amser da yn Llangrannog ar Fai 10fed, 11eg a'r 12fed. Roedd pawb wrth eu boddau gyda'r gweithgareddau a dwi'n siwr roedd pawb wedi blinio'n lân erbyn y diwedd. Cafwyd cyfle i sgio, merlota, nofio, gwibgartio a dringo wal. Ond y gweithgaredd orau gan bawb oedd neidio o dŵr uchel a saethyddiaeth. Diolch enfawr i Miss Davies a Miss Del am roi eu hamser i fod gyda'r plant.

**Taith Dosbarth Rhuddem**

Cafodd blant o Ddosbarth Rhuddem amser da yn dilyn yr afon fel rhan o waith thema – 'Cynefin' ar ddydd Mercher, 17eg o Fai. Diolch i Richard Vaughan o Barc Cenedlaethol Sir Benfro am arwain y daith.

**Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd**

Braf oedd cael rhannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd ar 18fed o Fai. Rhannwyd neges bwysig o 'Na i hiliaeth' adeg ein gwasanaeth boreol a rhannwyd y neges hefyd ar ein tudalennau cymdeithasol.

**Twrnament Criced i Ferched**

Da iawn i dîm criced merched yr Ysgol am gystadlu yn nhwrnament criced yng Nghlwb Criced Hwlffordd ar ddydd Mawrth, 23ain o Fai. Ymdrechodd y merched yn galed ac fe gafodd pawb amser da yn cystadlu.

**Dosbarth Diemwnt – Taith i Fferm Willhome, Camrose**

Cafodd plant Dosbarth Diemwnt (plant llawn amser) amser da yn Fferm Willhome ar Ddydd Mercher, 24ain o Fai wrth iddynt fynd yno fel rhan o waith thema'r dosbarth – Cynefin. Cafwyd cyfle i ddysgu am wahanol anifeiliaid a sut maent yn gofalu am yr anifeiliaid hyn.

**Cadw'n Ddiogel**

Diolch i'r RNLI a PC Llywellyn am ddod i'r ysgol adeg wythnos olaf cyn hanner tymor i gynnal gweithdai cadw'n ddiogel gyda'r plant.

**Twrnament Criced i Fechgyn**

Da iawn i dîm criced bechgyn yr Ysgol am gystadlu yn nhwrnament criced yng Nghlwb Criced Llechryd ar ddydd Iau, 8fed o Fehefin. Ymdrechodd y bechgyn yn galed gan ennill dwy gêm a cholli un. Da iawn fechgyn!

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau gwresog i'r holl blant a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri yn ystod hanner tymor. Bu'r ysgol yn cystadlu yn y cystadlaethau canlynol:-Oliver Thomas - Llefaru Blwyddyn 5 a 6 a'r Unawd Llinynnol, Alffi Morgan Davies –Unawd Offer Taro, Holly Mackay – Unawd Blwyddyn 5 a 6, Enlli Morgan-Davies –Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 5 a 6, Elijah Diong Jenner – Unawd Blwyddyn 2 ac iau, Parti Hywel – Dawns Werin Blwyddyn 5 a 6, Jenson Davies –Llefaru i Ddysgwyr Blwyddyn 3+4, Pari Beca – Parti Deulais, Parti Gwenllian – Parti Unsain. Diolch yn fawr i'r holl staff fu wrthi'n ddiwyd am fisoedd yn hyfforddi'r plant.

**Prosiect 23**

Llongyfarchiadau hefyd i'r disgyblion a berfformiodd ar faes yr Eisteddfod fel rhan o Brosiect 23 'Chwilio'r Chwedl'. Cafwyd dau berfformiad arbennig o chwedl 'Twm Sion Cati' gan griw o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6. Da iawn hefyd i'r criw a fu'n perfformio fel rhan o Gôr yr Urdd.

**Celf, Dylunio a Thechnoleg**



Cafwyd llwyddiant yn rownd rhanbarthol yr Eisteddfod yn yr adran Celf, Dylunio a Thechnoleg. Dyma'r enillwyr: Gwen Gibbon - 3ydd Ffotograffiaeth Du a Gwyn Blwyddyn 2 ac Iau, Jessica Mason - Gwaith 3D Blwyddyn 3 a 4. Thomas Durbridge - 3ydd Ffotograffiaeth Lliw Blwyddyn 2 ac Iau. Cafodd Thomas yr 2il wobr hefyd am greu tecstiliau Blwyddyn 2 ac Iau.

**Chwaraeon yr Urdd**



Gwnaeth y tim pêl droed yn wych i ennill un gêm, cael dwy gêm gyfartal a cholli un i'r tîm buddugol yn y rowndiau pêl droed cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth.

Bu disgyblion Blwyddyn 4 yn mwynhau cymeryd rhan yng nghystadleuaeth criced yr Urdd.

**Cyngor ECO**



Llongyfarchiadau gwresog i'r Cyngor Eco am sicrhau fod yr ysgol yn cyflawni'r Faner Platinwm. Buont yn gweithio'n ddiwyd ers mis Medi yn sicrhau fod gwisgoedd ysgol yn cael eu hail ddefnyddio yn ogystal â chasglu sbarion ffrwythau yn wythnosol ar gyfer biniau compostio gardd yr ysgol.

**Menter Iaith Sir Gâr**



Bu'r staff a'r disgyblion wrthi'n brysur yn addurno'r ysgol i ddathlu ymweliad yr Eisteddfod â Sir Gâr. Enillodd yr ysgol y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y Fenter am ein hymdrechion – da iawn bawb!

**Ymwelwyr**

Daeth PC Cath atom unwaith eto i rannu negeseuon pwysig iawn gyda disgyblion Blynyddoedd 4 – 6. Trafodwyd themau gan gynnwys ymddygiad gwrth-gymdeithasol a phwysigrwydd deall y gwahaniaeth rhwng gelyn a ffrind.

Bu'r ysgol gyfan yn gwrando ar negeseuon pwysig iawn Criw Bad Achub yr RNLI ynglŷn a diogelwch ar lan y môr, yn barod ar gyfer misoedd yr Haf.

Hyfryd oedd croesawu Mrs Natalie Jones o Ganolfan yr Egin atom. Bu'n holi disgyblion Blwyddyn 5 a 6 am eu barn am rai o bynciau llosg y dydd.

# YSGOL HAFODWENOG

**Er cof am Mrs Bronwen James**



Dyma lun o'r allor a grewyd gan Mr Hywel Bowen er cof am Mrs Bronwen James, cyn gogyddes yr ysgol. Yn y llun mae Mrs Carys Griffiths, merch Mrs Bronwen James, gyda Dr Carol James (Penaeth) a Cyng Jean Lewis (Cadeirydd y Llywodraethwyr).

Diolch i'r teulu am eu rhodd caredig

**Milfeddyg**



Diolch i'r milfeddyg Joan James a'i chi Rua am ddod i ymweld â ni. Fe fwynheuodd bob disgybl y cyfle i ddysgu mwy am gyfrifoldebau'r swydd bwysig yma!

**Garddio**



Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur allan yn yr ardd yn plannu llysiau


Bwydydd Fferm Bwlchygroes
Masnachwyr Amaethyddol Annibynnol
- Bwyd anifeiliaid
- Ffensio
- Nwyddau ar gyfer y fferm

Am bris cystadleuol ffoniwch:
01239 698226
neu Eleri 07827 854679

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

**Pel droed**




Dyma'r disgyblion a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth pel droed yr Urdd

**Urdd Sir Gâr 2023**




Disgyblion yn brysur yn addurno'r pentref

**Chwilio'r Chwedl**



Llongyfarchiadau Anest, Heledd a Mari am gymryd rhan yng nghynhyrchiad agoriadol Eisteddfod yr Urdd, 'Chwilio'r Chwedl'! Profiad bythgofiadwy i'r dair wnaeth weithio'n galed dros y misoedd a pherfformio'n wych.

**Eisteddfod yr Urdd**

Roedd Ysgol Hafodwenog wedi cael Eisteddfod brysur iawn yn Llanymddyfri eleni. Chwech cystadleuaeth i gyd.
Sara – llefaru blwyddyn 3 a 4
Parti Dawns blwyddyn 3 a 4
Parti Dawns blwyddyn 5 a 6
Mari – unawd piano
Côr
Parti Unsain

Llongyfarchiadau i'r Parti Unsain am ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Diolch i bawb, y disgyblion, hyfforddwyr, cyfeilyddion a'r rhieni.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Eisteddfod Celf a Chrefft y Rhanbarth**

Gwelwyd nifer helaeth o ddarnau celf yn yr Eisteddfod Sir eleni a chafwyd canlyniadau gwych. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a wnaeth gystadlu a dangos eu doniau celfyddydol a chreadigol. Aeth y darnau celf buddugol a ddaeth yn 2il ymlaen i'r genedlaethol. Gweler isod y canlyniadau;

**1af**
Gwaith 3D Bl 6 ac iau ADY – Maria
Pyped Bl 6 ac iau (grŵp) – Merched Beca
Pyped Bl 3 a 4 – Amelia

**2il**
Pyped Bl 6 ac iau (grŵp) – Welsh Whisperer a'i ffrindiau
Pyped Bl 3 a 4 – Leo
Ffotograffiaeth – cyfres o luniau du a gwyn Bl 5 a 6 – Poppy B
Creadigol 2D Bl 6 ac iau ADY – Maria
Creadigol 2D Bl 6 ac iau (grŵp) – Y Fferm

**3ydd**
Pyped Bl 6 ac iau (grŵp) – Dyn oes cerrig a mamoth
Pyped Bl 3 a 4 – Lois

**Rygbi Tag Merched**

Teithiodd tîm rygbi tag merched blynyddoedd 5 a 6 i Aberystwyth ar 14eg o Fai i gystadlu mewn gŵyl chwaraeon yr Urdd. Gwnaeth y merched yn arbennig o dda gan gyrraedd rownd y chwarteri. Collwyd y gêm yma drwy drwch blewyn gan iddo fod yn gêm gyfartal ond aeth i gais aur – cyntaf dros y llinell. Gwelwyd y merched yn cyd-chwarae'n wych gan ddangos dyfalbarhad a gweithio fel tîm.









Tîm Rygbi Tag Merched

**Gwobr Eco-Sgolion**



Llongyfarchiadau i'r Cyngor Eco ar ennill y drydedd faner werdd am eu gwaith caled i wneud yr ysgol a'r gymuned yn lle cynaliadwy gan rannu arfer dda gydag eraill. Ymlaen nawr tuag at y wobr platinwm.

**Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr, Llanymddyfri Prosiect 23**



Yn ystod y misoedd diwethaf mae criw o ddisgyblion wedi bod yn brysur iawn yn cymryd rhan yn y Prosiect 23 ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr, Llanymddyfri. Ar ôl wythnosau o ddysgu geiriau, ymarfer actio a chanu, teithiwyd i Lanymddyfri ar ddydd Sul, 28ain o Fai i berfformio ar lwyfan yr Urdd o flaen nifer helaeth o bobl. Ffilmiwyd y prosiect yn yr Egin er mwyn rhannu'r chwedlau yn ystod wythnos yr Eisteddfod ar draws y maes. Roedd yn brofiad anhygoel i'r plant a diolch i'r rhieni am fynd â nhw i'r ymarferion.

**Parti Llefaru**



Ar ôl llwyddiant yn yr Eisteddfod rhanbarth daeth cyfle i'r parti llefaru gystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod. Y darn gosod oedd Merched Beca, gwnaeth y disgyblion berfformio yn wych gan fwynhau'r profiad.

**Celf a Chrefft Cenedlaethol**



Llongyfarchiadau gwresog i Maria ar dderbyn 2il a 3ydd am ei gwaith celf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr, Llanymddyfri. Roedd dy waith yn wych, da iawn ti.

**Diolch**

Hoffwn fel ysgol ddiolch i Mrs Vanessa Roberts am ei chyfraniad a chefnogaeth hanner tymor diwethaf.

**Mabolgampau**



Enillwyr y Mabolgampau

Ar ddiwrnod braf a chynnes cynhaliwyd mabolgampau blynyddol yr ysgol. Roedd nifer helaeth o rasus o redeg, i gropian i daflu. Roedd hefyd cyfle i'r oedolion redeg

gyda chefnogaeth gwych oddi wrth y plant. Gwnaeth y disgyblion yn arbennig o dda gan gystadlu'n frwd i gasglu pwyntiau unigol ac ar gyfer eu llys. Yn fuddugol roedd:

Nifer uchaf o bwyntiau Dysgu Sylfaen:
Merch: Ffebi
Bachgen: Edward
Nifer Uchaf o bwyntiau CA2:
Victrix ludorum – Gwenllian
Victor ludorum – Jac
Llys: Gronw

Yn dilyn y mabolgampau cynhaliodd Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau'r ysgol y ras hwyaid a ffair haf blynyddol. Roedd yn brynhawn pleserus, llawn hwyl. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu a helpu mewn unrhyw ffordd.

## PENBLWYDD HAPUS





Penblwydd hapus i Osian Snelson, Caerfyrddin, a fydd yn 7 oed ar Orffennaf 4ydd. Cariad mawr wrth Dad, Mam, Gwilym a Caleb; Tadcu a Mamgu Cwmfelin; Taid a Nain Dinbych a'r teulu oll.


Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Gorffennaf** | | |
| Sad 1 | *Sioe Gerdd Take That - Greatest Days, CMC* | 1 |
| 25 a 26 | Sioe Frehinol Cymru | 1 |
| **Awst** | | |
| Llun 7 | **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** | 6 |
| Gwe 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 1 |
| Llun 21 | **Gerddi Highgrove ac ardal y Cotswolds** | 2 |
| **Medi** | | |
| Sad 2 | **Jersey** | 7 |
| Llun 11 | **Windsor a Gerddi Wisley** | 5 |
| Llun 18 | **Cider with Roses - Swydd Dyfnaint** | 5 |
| Llun 25 | **Iwerddon - Mynyddoedd Wicklow a Dilyn** | 6 |
| **Hydref** | | |
| Sad 14 | **Stiwdio Warner, Llundain - Gwneud Harry Potter** | 2 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Castell Studley, sir Warwick** | 5 |
| Mer 18 | *Daniel O'Donnell, NDS, Caerdydd* | 1 |
| Maw 24 | **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** | 5 |
| **Tachwedd** | | |
| Sad 4 | **Carnifal Golau Guto Fowk, Bridgwater** | 2 |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 21 | **Nadolig Ysblennydd Thursford** | 4 |
| Sad 25 | *Sioe Gerdd - Shrek, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 27 | **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** | 5 |

**Llyfryn 2023 ar gael nawr!!**

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Rhagfyr** | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Aladdin, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty'r Headland, Torquay** | 5 |
| **Ionawr 2024** | | |
| Mer 24 | *Sioe Ddawns - Giovanni Pernice, NDS* | 1 |
| **Chwefror 2024** | | |
| Sad 3 | *Sioe Gerdd - Jesus Christ Superstar, CMC* | 1 |
| Sad 10 | **Torquay** | 5 |
| **Ebrill 2024** | | |
| Llun 15 | **Cernyw ac Ynysoedd Scilly** | 5 |
| Gwe 26 | **Gwyl Corau Meibion Cymru, Neuadd Albert, Llundain** | 3 |
| **Mai 2024** | | |
| Iau 2 | **Ynysoedd Shetland, Royal Deeside a Pitlochry** | 9 |
| Sad 4 | *Sioe Gerdd Pretty Woman, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 13 | **Blodau sir Norfolk** | 5 |
| **Mehefin 2024** | | |
| Llun 24 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerdd - Wicked, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |

**Manylion rhai teithiau 2024 ar lein nawr!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED

Ffôn Symudol:
07919 524569


G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LLWB OLEW

HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

Wenfro
O! Gwyn ein byd – a gwyrdd!

# Cân yr adar

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Gan ei bod yn fis Mehefin, mae Branwen, y frân wen, yn cadw llygad barcud ar y fro yn y gobaith o weld a chlywed y gwcw. **Defnyddiwch yr allwedd arbennig sydd ar waelod y dudalen i geisio dyfalu pa adar welodd y frân fusneslyd.**




Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/07/23

Cai Boothe o Iscoed, Llanelli yw enillydd Cystadleuaeth Pasg Prysur!
Ateb: £31 oedd cyfanswm gwerthiant wyau Pasg Lilwen a Dilwen.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓟ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

Mae'n gyfnod prysur iawn i ni fel Menter, gyda sawl digwyddiad ar y gweill ar gyfer yr Haf.

Yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd, bu aelodau staff y fenter yna drwy'r wythnos ar stondin Mentrau Sir Gâr a Mentrau Iaith Cymru. Bu gweithgareddau amrywiol yn digwydd drwy'r wythnos, megis sesiynau lego, sesiynau cerddoriaeth a gweithgareddau crefft ar gael trwy'r dydd. Roedd hefyd cyfle i gystadleuwyr ymarfer ar ein stondin, a braf oedd cael bwrlwm y grwpiau ac unigolion yn dangos eu doniau. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth ddod i'n gweld ni ar y stondin. Hyfryd oedd gweld wynebau hen a newydd.

Yn ystod mis Mehefin, cynhaliwyd digwyddiadau di-ri fel rhan o'n Gŵyl Fach Newy' yng Nghastell Newydd Emlyn. Bu Cystadleuaeth Gelf ac arddangosfa o'r gystadleuaeth yn Llyfrgell Castell Newydd Emlyn, Helfa Drysor o amgylch y dref, Ras Fach y Wiber ar gaeau'r Clwb Rygbi, yr Ŵyl ei hun gyda chystadleuaeth gwisg ffansi, mabolgampau, gemau a mwy ac yna i orffen yr wythnos trefnwyd noson o gerddoriaeth fyw ar y nos Sadwrn yn Y Sgwâr. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi. Mae'r paratoadau yn mynd yn eu blaen ar gyfer Gŵyl Canol Dre ar yr 8fed o Orffennaf yng Nghaerfyrddin. Bydd yna ddwy lwyfan yn llawn bwrlwm a thalent trwy gydol y dydd yn ogystal â sesiynau stori, gweithgareddau creadigol, cyflwyniadau, gweithdai dawns a llenyddol a llawer mwy yn rhan o'r arlwy. Bydd cyfle i blant a phobl ifanc fwynhau yn yr ardal chwaraeon a bydd amrywiaeth o stondinau yna'n gwerthu nwyddau felly dewch i ymuno â ni.

Hoffai Menter Gorllewin Sir Gar diolch yn fawr iawn i'r holl wirfoddolwyr bu'n ein cynorthwyo yn ein amrywiaeth o ddigwyddiadau. Os oes diddordeb gan rywun i wirfoddoli gyda ni yn ein digwyddiadau, cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru

Cyfryngau Cymdeithasol:
Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
Trydar - @MenterGSG
Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.

# Clwb Bowlio Mat Byr Hendygwyn

Braf iawn tymor yma oedd i ddod yn ôl i chwarae gemau cynghrair ar ôl cyfnod gwahanol y blynyddoedd diwethaf. Roedd y clwb yn chwarae yn Ail Adran Cynghrair Sir Gaerfyrddin ynghyd â deg tîm arall. Roedd hyn yn golygu tymor prysur yn chwarae 20 o gemau. Er braidd yn fyr o aelodau, llwyddwyd i chwarae'r gemau i gyd gan ennill 11 ac un gêm gyfartal i orffen yn bedwerydd yn y cyghrair allan o 11 tîm. Roedd hyn yn ganlyniad derbyniol iawn. Yn y cwpan llwyddwyd i ennill yn erbyn Llangyndeyrn yn y rownd gyntaf ond yna colli i Bronwydd yn yr ail rownd.

I orffen y tymor cynhaliwyd cystadlaethau rhwng yr aelodau. Llongyfarchiadau i'r rhai a ddaeth yn fuddugol:
Senglau: Claude James
Parau: Glyn James, Shashi Patel
Triplau: Les Evans, Trefor Evans, Mel Jenkins
Pedwarau: Marjorie Cripps, Mike Taylor, Mike Williams, Mel Jenkins

Saib yn awr dros yr Haf gan obeithio ail ddechrau ym Mis Medi. Rydym yn cwrdd ar nos Fawrth yn Neuadd y Dref a mae croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni. *Trefor Evans*

# Clwb Bowlio Llanboidy



Noson cinio blynyddol Clwb Bowlio Llanboidy

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
**GORSAF BETROL PRESELI CYF.**
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
**01834 860227**

**R. M. JONES**
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

LLAWN CARIAD
**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

# Clwb Rygbi San Clêr

Bu'n gyfnod prysur iawn yn ystod mis olaf y tymor wrth i'r bechgyn chwarae 4 gêm.

Profodd ein gêm gynghrair oddi cartref yn erbyn Tyddewi yn brawf go iawn yn ystod cyfnod agoriadol y gem, yn erbyn tîm penderfynol sydd wedi gwneud yn dda yn y gynghrair y tymor hwn.  Wedi dweud hynny, gwnaeth y Seintiau sicrhau buddugoliaeth pwynt bonws cyn hanner amser gyda chais yr un gan Scott Newton, Dafydd Evans, Thomas Mason, Dafydd Waters a dau gan y capten Jac Howells. 3 trosiad llwyddiannus gan Dan Griffiths.

Ar ôl colli gartref o drwch blewyn yn erbyn Llambed ar Mai 6ed, fe deithion ni i ffwrdd ar gyfer gêm gynghrair arall yn ei herbyn ar Mai 13eg. Roedd popeth gyda ni i chwarae amdano, roedd rhaid i'r Seintiau ennill gyda pwynt bonws ac atal Llanbed rhag cael unrhyw bwyntiau. Yn debyg i'r gêm gartref (24 - 28), chwaraewyd y gêm yn gyflym gyda'r ddau dîm yn chwarae rygbi da ac yn creu cyfleoedd. Roedd y Seintiau ar un adeg wedi arwain 27 - 22 gyda rhyw 15 munud i chwarae – os bydde ambell benderfyniad wedi mynd ein ffordd ni, gallem fod wedi ennill. Sgoriwyd ceisiau gan Thomas Mason, Liam Rogers, Dafydd Waters a Will Icke, gyda dau drosiad a cic gosb gan Dan Griffiths. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, daeth Llambed yn ôl yn gryf drwy gicio un cic cosb a sgorio dau gais i'w gwneud nw yn bencampwyr Adran 3A Gorllewin. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm am yr hyn sydd wedi bod yn arddangosfa wych o rygbi ymroddedig dros gemau olaf y tymor.

Er ein bod yn siomedig i golli'r ddwy gêm olaf, gallwn fod yn hynod falch o ymdrechion y garfan ifanc yn y gynghrair y tymor hwn, sydd wedi ennill 20 o gemau mas o 22 - sy'n ein dyrchafu i Adran 2 Gorllewin. Diolch fel clwb i'n hyfforddwyr, cefnogwyr a noddwyr am eich cefnogaeth wych y tymor hwn.

Ein gêm olaf y tymor oedd yng Nghwpan Gorllewin Cymru yng Nghlwb Rygbi Hendy, yn erbyn Clwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan! Cafodd y garfan gyfle arall i chwarae yn erbyn ein gwrthwynebwyr pennaf. Unwaith eto cafwyd gêm wych o rygbi, ac er i ni golli 22 -16, ( wedi i ni arwain 15 – 16 ) gyda 2 gais gan yr wythwr Will Icke, a oedd yn rhagorol ar y noson, y ddau wedi'u trosi gan Dan Griffiths, Dangosodd Llanbed unwaith eto pa mor beryglus y gallant fod wrth ymosod, drwy sgorio cais ym munude olaf y gem. Diolch i'r bois am ymdrech wych arall.

Wrth i ni edrych nôl ar y tymor, lle gwnaethom sicrhau dyrchafiad a chwarae yn rownd derfynol yng Ngorllewin Cymru a rownd cyn derfynol Cwpan Cenedlaethol, gallwn edrych ymlaen yn hyderus at y tymor nesaf wrth i ni wynebu her a sialens newydd. *Gwyndaf Williams*




*Lluniau: Chris Rees*



*Emrys ac Ann Murrow*
**Motel Nantyffin**
**Llandissilio**
Bwyty • Neuadd Wledda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau
Croeso cwrtais bob amser
Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD
Croeso i
gleifion GIG!

**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
**Robert W. R. Morgan**
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Pêl-droed Llanboidy

Gorffennodd tymor y tîm cyntaf ar ddydd Sadwrn, 22ain Ebrill gyda gêm adref yn erbyn Crymych. Er hyn, roedd pedair gêm ar ôl gyda'r 2il dîm.

**2il dîm**

Ar y 12fed Mai chwaraeodd yr ail dîm yn erbyn tîm cryf iawn Cei Newydd, tîm wnaeth ennill yr ail adran, un adran yn uwch na Llanboidy, mewn ffeinal cwpan South Cards yn Ffostrasol. Cafwyd dechreuad da iawn, ond yn anffodus colli 7-1 oedd hanes Llanboidy. Gôl Llanboidy yn dod o gôl yn rhwyd ei hunan gan Gei Newydd. Canlyniad siomedig ond gall y tîm fod yn browd iawn o gyrraedd y ffeinal.

Tair gem gynghrair oedd ar ôl wedi'r ffeinal, a tair gêm adref hefyd. Collwyd yn erbyn Bargoed 3-2 gyda goliau yn dod gan Chris Bowen ac Adam Moore. Colli yn erbyn Llandysul hefyd o 4-3 gyda goliau Llanboidy yn dod gan Chris Bowen a dwy gôl gan Lewis Thompson. Roedd gêm olaf y tymor ar y 24ain Mai, a hynny yn erbyn Aberteifi. Cafwyd gêm dda iawn, gyda'r gêm yn gorffen 3-3. Goliau gan Adam Moore, Ashley Herbert a Lewis Thomson.

**Noson Wobrwyo**

Cynhaliwyd noson gwobrau diwedd tymor y Clwb ar nos Sadwrn, 3ydd Mehefin. Dyma'r enillwyr:
Chwaeraewr y Flwyddyn tîm cyntaf - Geth Scourfield
Chwaraewr y chwaraewyr tîm cyntaf - Nick Jones
Chwaraewr y flwyddyn yr ail dîm- Ashley Herbert
Chwaraewr y chwaraewyr yr aîl dim - Chris Bowen
Chwaraewr ifanc y flwyddyn- Will Abbott
Chwaraewr mwyaf addawol- Peredur James
Prif Sgoriwr tîm cyntaf -Geth Scourfield
Prif Sgoriwr yr ail dîm - Lewis Thompson
Dyn y clwb - Ryan Pearce
Erioed yn bresennol- Bledd Williams, Steff Williams, Dion Morgan a Llyr Owen

**Adran Iau**

Mae'r Clwb wedi dechrau ymarferion i blant a phobl ifanc rhwng 5-16 bob bore Sadwrn am 10 yb. Bydd yr ymarferion yma yn digwydd dros yr haf. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb.

*Rhodri Lewis*

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gemau/ymarferion – http://www.ceredigionleague.co.uk/ neu gyfryngau cymdeithasol y Clwb.




Yr 2il dîm cyn y ffeinal



Enillwyr y noson wobrwyo



Y tîm llawn yn y noson wobrwyo



# CHWARAEON
## Clwb Rygbi Hendygwyn




Mae tymor rygbi'r dynion a'r ieuenctid eisioes wedi dod i ben.

**Menywod**
Bu'r menywod yn chwarae un gêm a hynny yn erbyn Gwernyfed gan ennill 29-12. Sgoriwyd dau gais gan Marged Williams a chais yr un gan Macey Bowen, Ceulyn Davies a Sally Windsor. Llwyddodd Macey Bowen i drosi dau o'r ceisiau. Hon oedd gêm diwethaf Nat Walsh, ma hithe wedi ymddeol ar ôl chwarae i'r clwb am 18 mlynedd. Bydd hyn yn golled enfawr i'r tîm, ond diolchwn iddi am ei chyfraniad a'i gwasanaeth ffyddlon i'r clwb.

Cawsom gadarnhad yn ddiweddar bod y menywod wedi ennill y gynghrair, felly llongyfarchiadau mawr iddynt hwy. Rydym yn edrych ymlaen i ddathlu'r achlysur yn y clwb ar Gorffennaf 8fed.

*Adroddiad - Suzanne Davies*

**Noson Wobrwyo**
Cynhaliwyd noson wobrwyo yn ddiweddar a dyma restr yr enillwyr:-

**Dynion**
Chwaraewr y Flwyddyn - Trystan Rees
Chwaraewr y Chwaraewyr - Trystan Rees
Datblygu fwyaf - Dan Bennett

**Menywod**
Chwaraewr y Flwyddyn - Marged Williams
Chwaraewr y Chwaraewyr - Sally Windsor
Datblygiad fwyaf Blaenwyr - Llinos Ford
Datblygiad fwyaf Cefnwyr - Leah Coombes

**Ieuenctid**
Chwaraewr y Flwyddyn - Jack Worthing a Monty Milton
Chwaraewr y Chwaraewyr - Lewis Jones
Sgorwyr pwyntiau uchaf - Tyler Reynolds
Datblygu fwyaf - Jack Jenkins













*Yr aelodau ddaeth i'r brig yn noson wobrwyo'r clwb yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.*